

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Mercher, 2 Tachwedd	Clerc y Pwyllgor
2016	0300 200 6565
Amser: 09.00	SeneddPPIA@cynulliad.cymru

09.00 – 09.30 – Cyfarfod anffurfiol

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
(09.30)

2 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017–18 –
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
(09.30 – 11.00) (Tudalennau 1 – 105)

Llywodraeth Cymru

Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Albert Heaney, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddiad
Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau & Threchu Tlodi
Nigel Brown, Prif Weithredwr Interim, CAF/CASS Cymru

Dogfennau atodol:

Papur Ymchwil

CYPE(5)–09–16 – Papur | Paper 1



3 Papurau i'w nodi

Ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Arferion Hysbysebu ar roi cyfyngiadau ar hysbysebion i blant na chânt eu darlledu sy'n ymwneud â diodydd meddal a bwyd.

(Tudalennau 106 – 107)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 2 – i'w nodi | to note

Llythyr at y Cadeirydd gan NSPCC Cymru

(Tudalennau 108 – 109)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 3 – i'w nodi | to note

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg – Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Lleiafrifoedd Ethnig

(Tudalennau 110 – 112)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 4 – i'w nodi | to note

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant – Darpariaeth Eiriolaeth Statudol

(Tudalennau 113 – 114)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 5 – i'w nodi | to note

Gohebiaeth gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol mewn cysylltiad â'r Ymchwiliad i Waith Ieuencid.

(Tudalennau 115 – 148)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 6 – i'w nodi | to note

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

5 Trafodaeth ynghylch y gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016–17

(11.00 – 11.20)

6 Ymchwiliad i Waith Ieuenctid – Ystyried y papur ar y materion allweddol

(11.20 – 11.40)

(Tudalennau 149 – 174)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 7 – preifat | private

7 Ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol

11.40 – 12.00

(Tudalennau 175 – 177)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 8 – preifat | private

8 Adolygiad Diamond: llythyr drafft i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(12.00 – 12.20)

(Tudalennau 178 – 182)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 9 – preifat | private

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education
Committee

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 1

Ymateb gan : Llywodraeth Cymru
Response from : Welsh Government

Teitl: Papur tystiolaeth ar gyfer Dyraniadau Cyllideb ddrafft 2017-18
– Prif Grŵp Gwariant Plant a Chymunedau

1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch y portffolio Cymunedau a Phlant a'r cynigion cyllideb ar gyfer y rhaglen i'r dyfodol a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 18 Hydref 2016.

Ar gais y Pwyllgor, mae **Atodiad A** yn darparu dadansoddiad o ffigurau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Cymunedau a Phlant sy'n berthnasol i'r Pwyllgor, drwy Weithredu a thrwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb.

2. Cefndir

Tablau Ariannol Cryno:

MEG Cymunedau a Phlant	Cyllideb Atodol 2016-17	Cyllideb Sylfaenol2 017-18	Newidiadau 2017-18	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2017-18
	£000	£000	£000	£000
DEL Adnoddau	357,631	358,468	12,600	371,068
DEL Cyfalaf	376,370	328,012	9,693	337,705
Llinell Sylfaen DEL	734,001	464,480	22,293	708,773

O fewn y MEG Cymunedau a Phlant cyffredinol, y prif elfennau ar gyfer y Pwyllgor yw Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd. Crynhoir y cyllidebau ar gyfer yr elfennau hynny yn y tabl isod.

	Cyllideb Atodol 2016-17 £000	Cyllideb Sylfaenol 2017-18 £000	Newidiadau 2017-18 £000	Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2017-18 £000
DEL Adnoddau	172,453	172,558	8,500	181,058
DEL Cyfalaf	3,000	0	1,260	1,260
Llinell Sylfaen DEL	175,453	172,558	9,760	182,318

3. Trosolwg o'r Gyllideb

Dyma Gyllideb sydd wedi'i datblygu mewn cyfnod anodd ac ansicr. Mae ansicrwydd ynghylch sut y bydd ein perthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei haildrefnu o ganlyniad i refferendwm yr UE, ac mae ansicrwydd ynghylch yr effaith ar gyllid cyhoeddus y DU a chyllideb Cymru yn y tymor hirach.

Rydym yn parhau i wynebu toriadau parhaus i gyfanswm y cyllid a ddaw i ni oddi wrth Lywodraeth y DU - mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi dweud bod Cymru'n wynebu cyfnod eithriadol o gwtogi gwariant cyhoeddus dros 11 mlynedd neu fwy.

Mae hyn yn golygu ein bod, fel Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, yn wynebu dewisiadau anodd wrth i ni barhau i weithio i ddiogelu ein gwasanaethau cyhoeddus rhag yr effeithiau gwaethaf a buddsoddi yng Nghymru i ddatblygu swyddi a thwf yn ein heconomi, gan symud ein gwlad yn ei blaen.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Datganiad yr Hydref ym mis Tachwedd. Mae datganiadau cynnar gan Ganghellor y Trysorlys yn awgrymu na fydd y Trysorlys bellach yn anelu at sicrhau gwarged erbyn 2020, ond mae hefyd wedi dweud nad yw hyn yn golygu diwedd ar y cyfnod o gyni. Felly rydym wedi penderfynu cyhoeddi cynllun gwariant refeniw blwyddyn yn unig ar gyfer 2017-18 ond cynlluniau cyfalaf pedair blynedd, a fydd yn rhoi sicrwydd ar gyfer buddsoddiadau tymor hir.

Rydym bellach yn ail flwyddyn setliad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, a osododd gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20 a'r gyllideb gyfalaf hyd at 2020-21. Yn gyffredinol, bydd cyllideb Cymru'n parhau i ostwng mewn termau real dros y cyfnod hwn.

Mae'r toriadau sydd eto i ddod yn dwysau'r gostyngiadau termau real olynol sydd wedi'u gwneud ers 2010-11. Roedd gostyngiadau'r Adolygiad o Wariant i'n setliad yn atgyfnerthu gwasgfa Llywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus a'i hymrwymiad at gyni. Bydd ein cyllideb 9% yn is mewn termau real erbyn diwedd y ddegawd - mae hyn yn cyfateb i bron i **£1.5 biliwn yn llai** mewn termau real i wasanaethau cyhoeddus Cymru yn 2019-20 na'r hyn a welwyd yn 2010-11.

Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi pwyso ar Lywodraeth y DU i ailfeddwl am ei pholisïau economaidd a chyllidol. Gyda'n gilydd, rydym yn benderfynol o weithredu er mwyn atal rhagor o bolisïau cyni sydd o bosib yn cael eu hystyried o ganlyniad i refferendwm yr UE.

Mae canlyniad refferendwm yr UE wedi ychwanegu at y lefel o ansicrwydd am adnoddau fydd ar gael i Gymru yn y dyfodol. Bydd ymadael â'r UE yn cael effaith ar yr adnoddau sydd ar gael - mae Cymru'n manteisio ar £650 miliwn y flwyddyn o amrywiol ffrydiau ariannu Ewropeaidd, gan gynnwys taliadau amaethyddol.

Mae angen i ni gael cynlluniau refeniw sy'n cefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus heddiw a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor hir yn ogystal â'n galluogi i baratoi ar gyfer y gostyngiadau anorfod i'n cyllideb dros yr ychydig flynyddoedd nesaf os bydd y cyni'n parhau'n ddi-baid.

Pan fyddwn wedi asesu effaith Datganiad yr Hydref, rydym yn bwriadu cyhoeddi rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn y Flwyddyn Newydd. Mae'n penderfyniad i gyhoeddi cyllideb refeniw un flwyddyn yn golygu ein bod yn darparu sefydlogrwydd ar gyfer gwasanaethau craidd ac yn buddsoddi mewn blaenoriaethau ar unwaith. Mae hyn yn rhoi llwyfan sefydlog i ni reoli'r cyfnod anodd sydd o'n blaen mewn ffyrdd dyfeisgar gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

Yn benodol i'm portffolio, rwy'n cynnig uno tri o'r meysydd rhaglenni gwariant presennol (Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd; Cefnogi Cymunedau a Phobl a CAF/CASS Cymru) yn un, sef 'Galluogi Plant a Chymunedau'. O fewn y Maes Rhaglenni Gwariant newydd, bydd tri Cham Gweithredu i gwmpasu Cefnogi Plant, Atal ac Ymyrraeth Gynnar a'r Trydydd Sector/Cynhwysiant Ariannol. Y prif wahaniaeth yw y bydd y Cam Atal ac Ymyrraeth Gynnar yn cyfuno cyllidebau refeniw ar gyfer Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf. Nid uno'r rhaglenni hyn yw fy mwriad. Rwyf wedi nodi y gallai rhai awdurdodau lleol elwa ar fwy o ryddid ariannol a hyblygrwydd lle byddai hyn yn gwella darpariaeth gwasanaeth. Fel y dywedais yn fy natganiad llafar diweddar, fy mwriad yw dod â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol ac rydym wrthi'n ymgysylltu â chymunedau ar oblygiadau hyn ar hyn o bryd. Mae'r Cam

gweithredu arfaethedig hwn yn dangos gostyngiad o **£1.5 miliwn**, sef y swm y mae fy mhortffolio wedi'i gyfrannu at y toriadau cyni yn 2017-18.

Dull gweithredu integredig, tymor hir ar gyfer cyllid cyfalaf

Yn y Gyllideb hon mae gennym gyfle i ysgogi buddsoddiad yn yr economi; gwella gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a dechrau cyflawni'r blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u gosod yn Symud Cymru Ymlaen.

Mewn blynyddoedd blaenorol, cyllid cyfalaf a thrafodion ariannol traddodiadol oedd gennym i'w defnyddio'n bennaf i ariannu prosiectau seilwaith cyhoeddus - nawr mae pwerau benthyg newydd a modelau cyllid mwy arloesol ar gael i Gymru wrth i'r lefel o gyfalaf cyhoeddus sydd ar gael barhau i ddirywio.

Byddwn yn gosod cyllideb gyfalaf bedair blynedd - mae hyn yn cyfateb i'r setliad cyfalaf a osodwyd yn Adolygiad o Wariant 2015 y DU - ac yn cynnwys cyllideb gadarn ar gyfer 2017-18 a dyraniadau dangosol ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Mae'n bwysig i ni ddarparu cymaint â phosib o dryloywder a sicrwydd i'n prif randdeiliaid a'n partneriaid cyflawni er mwyn medru darparu buddsoddiadau cyfalaf. Rydym wedi dod i'r casgliad mai dull gweithredu cyfalaf tymor hir yw'r penderfyniad cywir.

Cyfanswm y cyllid cyfalaf sydd ar gael

Mae'r gyllideb hon yn nodi cynlluniau ar gyfer **£6.9 biliwn** o gyllid cyfalaf, sy'n cael ei chwyddo gan ein cynlluniau am fuddsoddiad o **£1.5 biliwn** drwy ein rhaglenni buddsoddi cyllid arloesol. Byddwn hefyd yn defnyddio'r pwerau benthyg cyfalaf a ddarparwyd gan Ddeddf Cymru 2014 yn llawn. Mae'r ffynhonnell cyllid yma, cynhwyswyd o fewn cyfanswm ein dyraniad cyfalaf, yn rhoi hwb o £395 miliwn i ein cyllidebau DEL Cyfalaf pedwar-flwyddyn.

Gan gofio bod nifer o ffactorau yn effeithio ar amseriad a chostau prosiectau seilwaith strategol, bydd mynediad at gyllid a fenthycwyd yn cael ei ystyried yn ofalus yn ystod pob cyfnod cyllideb ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ein blaenoriaethau buddsoddi strategol mewn seilwaith y cytunwyd arnynt. Mae ein cynlluniau a'n penderfyniadau seilwaith strategol yn cael eu llunio gan yr ymrwymadau yn *Symud Cymru Ymlaen* a'r blaenoriaethau buddsoddi yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Amserlen y dyraniadau

Gan ein bod yn gosod cynllun cyfalaf pedair blynedd, rydym yn cefnogi'n hymrwymiaadau strategol drwy gyfuniad o ddyraniadau cadarn ar gyfer 2017-18, dyraniadau dangosol ar gyfer y tair blynedd ddilynol a phennu cronfeydd cyfalaf wrth gefn penodol. Mae'r dull gweithredu hwn yn rhoi hyblygrwydd i ymateb wrth i gynigion ddatblygu ac wrth i ofynion cyllido gael eu cadarnhau.

Cronfeydd wrth gefn

Rydym yn neilltuo cymaint â phosib i bortffolios gan gadw lefel ddarbodus o gronfeydd canolog wrth gefn ar gyfer pwysau nad oes modd eu rhagweld. Er bod yr egwyddor hon yn berthnasol yn yr un modd i'n cyllidebau refeniw a chyfalaf, rydym yn cynyddu cronfeydd cyfalaf ymhellach gan sicrhau bod digon o gronfeydd canolog ar gael i gefnogi'n prif ymrwymiaadau wrth iddynt symud ymlaen dros dymor y Cynulliad.

Felly, mae'n hadnoddau wrth gefn ar gyfer 2017-18 yn 1.7 y cant o'r DEL Adnoddau ac mae'r Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn yn 7.1% o'r DEL Cyfalaf, gan godi i rhwng 30% a 34 y cant dros y tair blynedd. Rydym yn fodlon y bydd y lefelau hyn o gronfeydd wrth gefn yn ein galluogi i reoli risgiau ac ymateb i bwysau nad oes modd eu rhagweld, gan roi sicrwydd cyllidol i Ysgrifenyddion unigol y Cabinet fel y gallant ddechrau cynllunio a chyflawni'r prif ymrwymiaadau yn Symud Cymru Ymlaen.

4. Rhaglen Lywodraethu

Dyma Gyllideb i symud Cymru ymlaen, i roi sefydlogrwydd i'n gwasanaethau craidd, ac i wneud cynnydd wrth weithredu ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol, Symud Cymru Ymlaen 2016-21.

<http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf>

Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi sut y bydd y llywodraeth hon yn darparu mwy o swyddi o ansawdd gwell drwy economi gryfach, decach; sut y bydd yn gwella a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy ac yn datblygu pedair strategaeth drawsbynciol:

- Ffyniannus a diogel
- Iach ac egnïol
- Uchelgais a dysgu
- Unedig a chysylltiedig

Bydd y llywodraeth hon yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i fynd i'r afael â'r heriau a'r materion sy'n wynebu Cymru a manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi wrth i ni barhau i gydweithio i greu gwlad gadarn a hyderus

Rydym yn gweithio ar bedair strategaeth drawsbynciol - *Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egniol, Uchelgais a Dysgu, ac Unedig a Chysylltiedig*. Bydd y rhain yn nodi'n fanylach y camau cyd-ddibynnol y byddwn yn eu cymryd i sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael y cyfle i ffynnu ar bob cam o'u bywyd.

Bydd y rhain yn cefnogi *Symud Cymru Ymlaen* ac yn ein galluogi i ddefnyddio pob dull sydd ar gael inni i gael yr effaith fwyaf bosibl a gwireddu addewid Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd y strategaethau cyd-ddibynnol hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn integredig, yn effeithlon ac ar gael i gefnogi pobl a chyfoethogi eu bywydau pa bryd bynnag a pha le bynnag y bydd arnynt eu hangen.

Rydym wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd sy'n annog darpariaeth arloesol yn yr amgylchedd presennol. Mae cydweithio, gwaith partneriaeth ac effeithlonrwydd ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol bwysig, yn ogystal â herio'n hunain a'n partneriaid i ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym ar y cyd yn effeithiol er mwyn sicrhau bod ein cydymdrechion mor llwyddiannus â phosibl. Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi sylfaen gref i ni, a sefydliadau cyhoeddus eraill, adeiladu arni.

Wrth gydweithio gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet, rydym wedi trafod meysydd cyffredin o ddiddordeb, ac er na fydd ganddynt oblygiadau cyllidebol, byddant yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio i gryfhau sut rydym yn bodloni'n hymrwymiaidau. Er enghraifft, rydym yn cysoni Dechrau'n Deg â'r rhaglen Plant Iach Cymru i sicrhau bod cymorth parhaus i'r plant a'r teuluoedd hynny a symudodd rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd lle nad oedd y rhaglen Dechrau'n Deg ar waith a bod yr ymyriadau a ddarperir a'r negeseuon iechyd cyhoeddus yn gyson. Wrth ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol byddwn yn cydweithio i ddatblygu llwybrau cyffredin a gwasanaethau integredig.

5. Cwestiynau allweddol

Asesiadau Effaith

Nod Deddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn eu

gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, datblygu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Unwaith eto, rydym wedi penderfynu cwblhau **Asesiad Effaith Integredig o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**, sy'n ystyried hawliau plant ochr yn ochr ag effaith ar gydraddoldeb, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Cafodd ein dull ei lywio gan argymhellion rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys Pwyllgorau'r Cynulliad, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r Asesiad o Effaith Integredig Strategol yn tynnu sylw at achosion lle nodwyd effeithiau o'r fath.

Mae asesiad integredig yn darparu asesiad mwy cynhwysfawr o effaith gyffredinol penderfyniadau gwariant. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ein dealltwriaeth ehangach o gynaliadwyedd ein penderfyniadau a'r nodau a'r amcanion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan gynnwys y ffocws ar atal, cydweithio a'r sefyllfa yn yr hirdymor.

Rydym ni fel Llywodraeth yn gyfrifol am gynnig a gweithredu polisïau a chyfreithiau a fyddai'n gymwys yng Nghymru ac sydd â'r nod o wella bywydau pawb yng Nghymru. Trwy wneud hynny, rydym yn gwbl ymrwymedig i wrando ar safbwyntiau pobl Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Er mwyn i hyn ddigwydd, rwy'n darparu cyfanswm o £1.8 miliwn dros 3 blynedd i Plant yng Nghymru i greu strwythurau a fyddai'n galluogi plant a phobl ifanc i leisio eu barn a dylanwadu ar ein gwaith. Nod eu model cyfranogi, Cymru Ifanc, yw cyrraedd miloedd o blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a allai fod wedi'u gwthio i'r cyrion, rhai sy'n swil, tlawd, wedi'u hallgáu neu sy'n wynebu amgylchiadau anodd.

Mae ein holl lythyrau dyfarnu grantiau yn nodi bod yn rhaid i dderbynyddion roi polisi cyfle cyfartal ar waith fel cyflogwyr, fel defnyddwyr gwirfoddolwyr ac fel darparwyr gwasanaethau, beth bynnag fo'u hil, rhyw/hunaniaeth rywiol, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chredo, oedran neu unrhyw anabled.

Nid oes unrhyw newidiadau pwysig i hawliau neu gydraddoldeb plant yn sgil y gyllideb hon. Byddwn yn sicrhau bod ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i hyrwyddo datblygiad gwasanaethau mwy effeithiol ar gyfer teuluoedd ag anabled, drwy ddarparu cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau anabled penodol, ynghyd ag annog cynnwys pryderon ynghylch anabled mewn darpariaeth gwasanaethau prif ffrwd.

Mae'r cyllid a ddarparwn i'r Comisiynydd Plant yn galluogi'r sefydliad i wneud cyfraniad pwysig at ddatblygu polisiau mewn perthynas ag anghydraddoldeb. Mae'r manteision hyn yn cynnwys:

- gwella iechyd plant, gan arwain at Gymru iachach,
- gwell cydraddoldeb i blant, gan arwain at Gymru fwy cyfartal,
- gwell amgylcheddau ffisegol i blant, gan arwain at Gymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang,
- hawliau plant i hunaniaeth, gan arwain at Gymru gyda chymunedau mwy cydlynus a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi bod yn cael eu cynnal ers blynnyddoedd lawer o fewn y Portffolio Cymunedau a Phlant, gan gynnwys:

- Ymestyn rheoliadau a newidiadau i'r Fframwaith Rheoleiddio Gofal Plant. Gweler **Atodiad B1**.
- Mae grant Polisi Strategol Chwarae Cymru yn dod i ben ar 31.09.2017, ond mae swyddogion yn ystyried cytundebau ar gyfer cyllid pellach ar ôl hyn. Gweler **Atodiad B2** am yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.
- I ategu Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2015, ystyriwyd effeithiau newidiadau yn y gyllideb ar drechu tlodi yn fwy eang fel rhan o asesiad o effaith integredig Llywodraeth Cymru o gyllideb 2017/18. Gweler **Atodiad B3**.
- Mewn perthynas â'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd o fewn y Gyllideb Teuluoedd yn Gyntaf, nid oedd unrhyw newidiadau i ddyraniadau yn sgil yr asesiadau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i'w gweld yn **Atodiad B4**.
- Mewn perthynas â'r Ymgyrch Rhianta Cadarnhaol - cafodd yr ymgyrch hon ei chyllido dan Linell Wariant yn y Gyllideb Teuluoedd yn Gyntaf. Nid oedd unrhyw newid i ddyraniadau yn sgil yr asesiadau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gynnwys yn **Atodiad B5**.
- Fel rhan o waith CAF/CASS Cymru ar gyfranogiad plant, sydd ar gael yn: http://gov.wales/docs/cafcass/publications/260216CRIA_YourVoice.pdf

Atal

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn hollbwysig i mi. Bydd fy rôl fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Cymunedau a Phllant yn canolbwyntio ar gyflawni fy mlaenoriaethau o ran llesiant ac adnewyddu economaidd, a gwneud y ddau o fewn cyd-destun fy nghyfrifoldebau portffolio a gweithio gyda chydweithwyr Cabinet ar draws y Llywodraeth.

Mae tystiolaeth glir bod gwreiddiau llesiant a ffyniant economaidd i'w holrhain yn gynnar ym mhentyndod plentyn. Mae'r blynyddoedd cynharaf yn hollbwysig: gall profiadau bywyd cynnar gael effaith ddwys ar ddatblygiad plant a dylanwadu ar ymddygiad yn ystod blaenlencyndod ac fel oedolyn. Felly, mae'n rhaid i ni feithrin dull hirdymor a buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol sy'n hyrwyddo cadernid unigolion a theuluoedd.

Rwy'n hynod falch o'r buddsoddiad rydym ni wedi'i wneud yn Dechrau'n Deg - gan gefnogi dros chwarter yr holl blant dan 4 oed yng Nghymru. Byddaf yn cynnal fy ymrwymiad i Dechrau'n Deg ac yn ceisio ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen drwy sicrhau bod ymarfer Dechrau'n Deg yn llywio ac yn datblygu ymarfer mewn gwasanaethau prif ffrwd. Mae cyfleoedd drwy weithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a CLILC ar y 1000 diwrnod cyntaf ac fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein Rhaglen Plant Iach Cymru gyffredinol.

Daw un o'r bygythiadau mwyaf i lesiant plant a'u ffyniant yn y dyfodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP). Mae'r profiadau niweidiol hyn, fel cam-drin corfforol a llafar neu fod ar aelwyd lle ceir trais domestig, camddefnyddio sylweddau, rhieni yn gwahanu neu salwch meddwl, yn effeithio'n negyddol ar ddatblygiad plant ac yn effeithio ar ganlyniadau hirdymor.

Gall dod i gysylltiad â Phrofiadau Newidiol yn ystod Plentyndod, yn enwedig sawl profiad, effeithio ar y ffordd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu ag addysg a gall ddylanwadu ar a ydynt yn mabwysiadu ymddygiad sy'n niweidio eu hiechyd a'u tueddfryd i ymddygiad troseddol. Yn eu tro, mae pob un o'r ffactorau hyn yn lleihau llesiant ac yn effeithio ar ganlyniadau economaidd - y tebygolrwydd o fod mewn cyflogaeth sicr.

Felly, bydd fy ngwaith portffolio yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion o Brofiadau Newidiol yn ystod Plentyndod, drwy geisio eu hatal lle mae hynny'n bosibl. Ar yr un pryd, byddwn yn gweithio i leihau eu heffaith ar gyfleoedd bywyd plant er mwyn gwella llesiant a ffyniant economaidd. Nid oes gennyf amheuaeth bod hon yn her hirdymor a bydd manteision y dull hwn yn rhai hirdymor hefyd.

Dyma'r ffordd iawn o fynd ati os ydym am sicrhau'r manteision rhyng-
genhedlaeth o dorri'r cylch hwn.

Mae toreth o dystiolaeth mewn perthynas â rôl gadarnhaol gofal plant wrth
ddylanwadu ar gyflogaeth rhieni, a rôl gofal plant a chwarae o ansawdd da yn
natblygiad plant, gan sicrhau eu bod yn cael dechrau da mewn bywyd. Mae
llawer o dystiolaeth i ddangos bod gan ymyriadau cynnar fanteision yn yr
hirdymor (Gunnar & Davies (2003); Edwards et al (2009); Luther et al (2000), y
cyfeiriwyd atynt yn Adolygiad Ymyrraeth Gynnar Achub y Plant 2010).

Mae rôl y Comisiynydd Plant o graffu arnom yn y llywodraeth a sicrhau bod
deddfwriaeth, polisiâu a phenderfyniadau yn darparu'r canlyniadau gorau posibl
ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd hefyd yn canolbwyntio'n fawr ar fesurau
ataliol. Yn yr un modd, mae'r dyraniadau cyllid rwyf wedi'u gwneud ar gyfer
Hyrwyddo a Chefnogi Hawliau Plant yn canolbwyntio'n fawr ar wariant ataliol -
hysbysu, sicrhau a galluogi plant i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau
a datrys materion heb fod angen uwchgyfeirio'r mater a chreu straen pellach.

Y Gymraeg

Bydd holl gyhoeddiadau'r rhaglen a deunyddiau cyhoeddusrwydd a gynhyrchir yn
cael eu hargraffu'n ddwyieithog a darperir yr holl wasanaethau i deuluoedd yn
ddwyieithog. Mae ein holl gyfathrebu yn y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog
ac mae'r holl negeseuon i staff y Rhaglen yn cael eu hanfon yn eu hiaith
ddewisol. Rydym yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn elfen ganolog o
raglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf gyda gofyniad ar awdurdodau
lleol i ymateb i ddewis rhieni, a sicrhau darpariaeth Gymraeg yn ôl y gofyn. Mae
ein canllawiau strategol yn nodi'n glir bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi
trefniadau ar waith i fodloni dewisiadau rhieni ar gyfer darpariaeth Gymraeg
a/neu ddwyieithog.

Rydym wedi datblygu prosiect penodol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y rhaglen
Dechrau'n Deg eleni. Yn ogystal â hynny, mae ein gweithgareddau Gofal Plant
yn cynnwys cefnogi sefydliadau fel Mudiad Meithrin a chonsortium CWLWM sy'n
darparu gofal plant yn y Gymraeg. Bydd ein darpariaeth gofal iechyd
ddatblygedig yn gweithio i sicrhau bod Darpariaeth Gymraeg ddigonol, ar gyfer y
rhai sydd am ei derbyn. Yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, mae ein rhaglen
PaCE yn gofyn i'w holl gyfranogwyr pa iaith yw eu hiaith ddewisol o ran derbyn
gwasanaethau. Yna, darperir y gwasanaethau hyn i'r unigolion yn unol â'u dewis.

Gwerth am Arian

Mae gwerthuso'n cael ei wneud fel rhan o weithgareddau rheoli grant a rheoli prosiect arferol. Pan fyddaf yn cyllido sefydliadau Trydydd Sector yn uniongyrchol, bydd fy swyddogion yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy i gynghori ar hyfywedd ariannol sefydliad, y ffordd y mae'n cael ei lywodraethu a chefnidir y Cyfarwyddwr cyn dyfarnu grant ac yna byddwn yn adolygu'n rheolaidd yn ystod oes y prosiect cyn i daliadau gael eu gwneud. Mewn perthynas â chyllid i awdurdodau lleol, byddaf yn parhau i gasglu data ganddynt i fonitro perfformiad, asesu canlyniadau a sbarduno gwelliannau yn y dyfodol, gan gynnwys gwerth am arian.

Canlyniad Refferendwm yr UE

Nid oes effeithiau uniongyrchol ar unwaith yn sgil y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw ein rhaglenni craidd fel Dechrau'n Deg yn dibynnu ar gyllid yr UE. Fodd bynnag, mae ein Rhaglen Dechrau'n Deg yn darparu £3.2 miliwn o gyllid cyfatebol i ddwy raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cefnogi cyflogaeth a ffyniant, sef t prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) a'r prosiect Cynnydd ar gyfer Llwyddiant (PfS). Byddwn yn sicrhau bod effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cael ei monitro'r ofalus a byddwn yn cynnal trafodaethau i gyfyngu ar yr effaith. Rwy'n bwriadu cynnal asesiad o effaith canlyniad Refferendwm yr UE ar blant a phobl ifanc wrth i effeithiau'r canlyniad ddod yn gliriach i ni.

5 Ffordd o Weithio

Mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn rhan hollbwysig o sut wyf am ddatblygu a gweithredu fy rhaglenni ar draws yr holl Brif Grŵp Gwariant ac wrth greu'r Camau Gweithredu Atal ac Ymyrraeth Gynnar. Mae'r rhaglenni hyn yn ceisio sicrhau bod anghenion heddiw'n cael eu cyflawni heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio sy'n berthnasol i'r portffolio hwn fel a ganlyn:

- *Cydweithio* – cydnabod na all un sefydliad ar ei ben ei hun ddatrys llawer o'r heriau 'cynaliadwyedd' sy'n wynebu Cymru. Mae gwaith amlasiantaeth yn cael ei gydnabod bellach fel rhywbeth hanfodol ac nid dewisol. Mae ein Rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf wedi gwella'r ffordd mae asiantaethau'n cydweithio i gefnogi'r teuluoedd mwyaf agored i niwed drwy gydgomisiynu gwasanaethau a defnyddio dulliau Tîm o Amgylch y Teulu o ddarparu gwasanaethau. Byddaf hefyd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i

gydweithio ledled y Llywodraeth a gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys y trydydd sector, er mwyn sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau yn cyrraedd y cymunedau sydd eu hangen fwyaf. Bydd CAFCASS yn cryfhau'r partneriaethau ag awdurdodau lleol ac yn cyfrannu at wella gwasanaethau a chanlyniadau i blant a theuluoedd drwy rannu data a gwybodaeth yn fwy effeithiol. Gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal, gellir amddiffyn unigolion a gwella canlyniadau llesiant drwy gydweithio a hynny drwy waith amlasiantaeth a chymunedau.

- *Integreiddio* – o fewn y rhaglenni Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf, disgwylir i awdurdodau lleol gynnwys rhaglenni a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat wrth lunio eu cynlluniau a sicrhau bod asesiadau o anghenion a darpariaeth yn cael eu rheoli ar y cyd a phan fo hynny'n briodol, bod dilyniant di-dor i blant rhwng gwahanol ymyriadau a rhaglenni. Bydd CAFCASS yn datblygu gwybodaeth am berfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddangos tystiolaeth o effaith ein hymrwymiaadau, ac yn ei rhannu gyda'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn cynorthwyo i wella gwasanaethau ledled Cymru.
- *Hirdymor* - Rwyf wedi ystyried effeithiau hirdymor posibl penderfyniadau a chydbwysu hyn yn erbyn fy anghenion tymor byr. Mae hyn wedi galluogi i mi gynllunio ar sail cydnabod heriau cyn iddynt godi er mwyn i mi allu cydbwysu pwysau tymor byr gydag anghenion hirdymor. Yn benodol, mae tystiolaeth yn dangos y bydd buddsoddi mewn cymorth teuluol ac yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at fwy o fudd yn yr hirdymor. Er enghraifft, drwy gefnogi ymarferwyr drwy sicrhau bod ganddynt yr offer sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu swyddi, bydd y rhaglen ar Faethu, Mabwysiadu a Phlant sy'n Derbyn Gofal yn helpu i sicrhau bod unigolion yng Nghymru yn cael eu diogelu yn yr hirdymor.
- *Atal* – ceisio datrys gwraidd problemau a hynny'n gynt, yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau'r problemau hyn yn ddiweddarach. Yn ogystal â sicrhau budd i bobl a chymunedau, gall atal ac ymyrraeth gynnar sicrhau arbedion cost hirdymor hefyd. Mae'r dull hwn wrth wraidd fy rhaglenni trechu tlodi, yn arbennig Teuluoedd yn Gyntaf, a'r dull a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a brofir gan y rhai â nodweddion gwarchoddedig. Bydd CAFCASS yn parhau i weithio gyda rhieni a gofalwyr sydd â materion cyfraith breifat sydd gerbron y llys teulu i'w cynorthwyo i ddod i gytundeb ar drefniadau a fydd yn hyrwyddo diogelwch corfforol a llesiant emosiynol eu plentyn.

- *Cyfranogiad* – un o gonglfeini'r portffolio hwn yw cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl, yn enwedig plant, yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Ni ellir hyrwyddo hawliau plant heb gyfranogiad a chlywed llais y plant yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am eu bywydau.

Ar wahân i hyn, mae'r Prosiect Cysoni Rhaglenni Cymunedau a Threchu Tlodi wedi bod yn edrych ar ffyrdd o leihau biwrocratiaeth a chynyddu effeithlonrwydd yn y prif Raglenni. Drwy symud cyllid ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf i un llinell wariant yn y gyllideb o 2017-18, mae yna botensial i ostwng costau gweinyddu yn Llywodraeth Cymru, ac yn ein hawdurdodau lleol hefyd.

6. Meysydd penodol

Dechrau'n Deg

Nod y rhaglen Dechrau'n Deg yw gwella canlyniadau ar gyfer plant yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Gwneir hyn drwy ddarparu pedair hawl Dechrau'n Deg allweddol i blant dan bedair oed a'u teuluoedd: 1) gwasanaeth estynedig gan ymwelwyr ieuchyd; 2) cymorth rhianta; 3) cymorth ar gyfer llferydd, iaith a chyfathrebu; a 4) darpariaeth gofal plant rhan-amser, am ddim o ansawdd uchel i blant 2-3 oed.

Nid yw'r grant Dechrau'n Deg yn cael ei **ddadagregu i'r 4 elfen** gan fod gan awdurdodau lleol y rhyddid o ran sut maent yn dyrannu'r grant er mwyn diwallu anghenion lleol. Er mwyn rhoi syniad o gyfran y cyllid a ddefnyddir i gyflawni pedair hawl y rhaglen, roedd gwariant ledled Cymru ar gyfer pob elfen yn 2015-16 fel a ganlyn:

Elfen	Swm
Gofal plant	£36,134,487
Tîm Iach	£24,253,305
Datblygu Iaith Gynnar	£4,120,000
Rhianta	£11,543,711
Cyfanswm	£76,051,503

Ar lefel Cymru yn 2015-16 (y flwyddyn ddiwethaf y mae gwybodaeth ar gael amdani), bodlonwyd **97%** o bob cais gan rieni am ofal plant yn y Gymraeg. Mae

fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn Is-adran y Gymraeg i ddatblygu rhaglen beilot i geisio gwella'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd lle'r oedd niferoedd isel o siaradwyr Cymraeg. Rwyf am geisio asesu'r cysylltiadau rhwng y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg a dewisiadau rhieni o ran Addysg Gymraeg.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar hawliau iaith a chwarae (y cyfeirir atynt bellach fel darpariaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu) at ddibenion monitro yn parhau i gael ei ddiffinio fel 'cwrs a gynigir i ffigwr rhianta unigol a fynychodd y sesiwn gyntaf'. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod yr hawl hon wedi'i phlethu drwy weithgarwch yn y tair hawl arall hefyd. Dylai fod gan bob teulu mewn ardal Dechrau'n Deg fynediad parhaus i gylch chwarae ac iaith priodol. O hyn, gellir defnyddio dull wedi'i dargedu'n well ar sail asesiad ac atgyfeiriad pan fo tystiolaeth o angen ychwanegol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae therapyddion lleferydd ac iaith yn cael eu cyflogi fel rhan o'r tîm Dechrau'n Deg craidd. Pan fo model cysylltu'r dull hwn â thystiolaeth o angen lleol ac effaith ar ganlyniadau, bydd yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn y gwerthusiad o effaith yn 2013 a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos ymwybyddiaeth o raglenni rhianta, atgyfeirio atynt a manteisio arnynt ac roedd iaith a Chwarae yn uwch ymysg rhieni yn y grŵp Dechrau'n Deg. Mae'n bwysig sicrhau mwy o ymgysylltu â gwasanaethau blynyddoedd cynnar er mwyn meithrin y canlyniadau yn y tymor canol a'r hirdymor y disgwylir i'r rhaglen eu cyflawni. Yn yr adroddiad gwerthuso ansoddol diweddar, a gyhoeddwyd yn 2016, nododd rhieni welliannau amrywiol yn natblygiad eu plant. Roedd hyn yn cynnwys siarad a chyfathrebu, darllen a chyfrif, materion ymarferol ac ymddygiad ac agwedd. Yn ogystal â hyn, teimlai'r holl rieni a holwyd bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar lefel lesiant gyffredinol eu teuluoedd.

Mae Dechrau'n Deg wedi bod yn destun rhaglen werthuso annibynnol gadarn sy'n ystyried effaith a gwerth am arian. Cyhoeddir adroddiadau gwerthuso ar dudalen we Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r datganiad ystadegol diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, ar gael yma: <http://gov.wales/statistics-and-research/flying-start/?skip=1&lang=cy>

Mae Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglenni ymyrraeth gynnar sy'n cael eu llywio gan y corff rhyngwladol cynyddol o dystiolaeth sy'n cefnogi rôl gadarnhaol ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar wrth wella datblygiad plant a phobl ifanc a'u rhagolygon fel oedolion. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2015 gan yr Early Intervention Foundation, amlygwyd cost gyllidol colli cyfleoedd i

ddarparu cymorth cynnar, wedi'i dargedu i blant a phobl ifanc. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad mai ymyrraeth gynnar yw'r dewis doeth a realistig wrth ddefnyddio arian cyhoeddus sy'n fwyfwy prin.

Datgelodd ymchwil ansoddol diweddar fod rhieni yr oedd eu plant wedi mynychu gofal plant Dechrau'n Deg yn teimlo eu bod wedi gwella eu sgiliau cymdeithasol ac wedi'u paratoi'n well ar gyfer yr ysgol. Mae buddsoddiad yn cael ei dargedu yn y cymunedau gyda'r gyfran uchaf o aelwydydd gyda phlant 0-4 oed sydd ar fudd-daliadau incwm.

Yn ogystal â hyn, soniodd rhieni a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil ansoddol am holl ganlyniadau disgwylidig uniongyrchol y rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys datblygiad iaith, datblygiad cymdeithasol ac economaidd a chanlyniadau datblygiad gwybyddol y plant. Mae tystiolaeth hefyd fod rhieni rhai plant ar y Rhaglen yn elwa ar gyfleoedd sydd ar gael i ddysgu sgiliau newydd a gwella eu rhagolygon cyflogaeth.

Asesir gwerth am arian y rhaglen Dechrau'n Deg yn barhaus. Mae costau'n cael eu cymharu ar draws awdurdodau lleol; mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd a brynir yn cael ei fonitro a chytunir ar gyllidebau gofal plant fel rhan o gynlluniau gwaith blynyddol. Mae Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru yn trafod darpariaeth a dyraniadau cyllideb mewn cyfarfodydd rheolaidd. Cytunir ar wariant ac asesir prosiectau yn barhaus o safbwynt a ydynt yn bodloni amcanion y rhaglen a gwerth am arian.

Mae gweithgareddau amrywiol ar waith ar hyn o bryd i'n galluogi i adeiladu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol o Dechrau'n Deg. Mae haen gyntaf y gwaith yn cynnwys ymchwil ansoddol yn dilyn 72 o deuluoedd ar eu taith drwy Dechrau'n Deg dros dair blynedd. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn gynnar yn 2016. Yn ail, mae swyddogion yn gweithio gyda Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru i ddefnyddio cronfeydd data cyfredol i fonitro a gwerthuso Dechrau'n Deg. Mae'r ymchwil yn cynnwys archwilio gwahaniaethau mewn canlyniadau addysg ac iechyd ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a thu allan i'r ardaloedd hyn. Mae'r gweithgarwch gwerthuso cyfredol hefyd yn cynnwys datblygu a phrofi dull o nodi canlyniadau ar gyfer plant Dechrau'n Deg mewn perthynas â'u lefel o ymgysylltu â'r rhaglen. Mae hyn yn cynnwys archwilio cyrhaeddiad a phresenoldeb plant wrth iddynt symud drwy'r ysgol yn ogystal â chanlyniadau iechyd amrywiol.

Dechrau'n Deg – Cyfalaf – Mae cyllid cyfalaf Dechrau'n Deg a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ehangu

rhaglen Dechrau'n Deg ac i ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen o 18,000 i 36,000. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cyfrannu at ddatblygu'r 'seilwaith cymdeithasol' y cyfeirir ato yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru trwy weithio yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig a gwella lles a chyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed. Mae Dechrau'n Deg wedi darparu lleoliadau o safon uchel, sy'n hollbwysig er mwyn cyflwyno'r rhaglen mewn ardaloedd o amddifadedd uchel.

Cyllideb Cyfalaf Dechrau'n Deg ar gyfer 2017-18 yw **£1.2 miliwn**, sy'n ddigon i gwblhau prosiectau sydd eisoes ar waith. Yn dilyn sawl blwyddyn o fuddsoddi cyfalaf, mae gan bob un o'r 22 ardal ALI rwydwaith o leoliadau gofal plant sydd wedi hen ennill eu plwyf. Y seilwaith hwn sy'n darparu'r waddol amlycaf ar gyfer pob ardal Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r llwyfan ffisegol ar gyfer cynnal y gweithgarwch. Bydd natur safleoedd Dechrau'n Deg ac ehangder eu rôl fel canolfannau gweithgarwch ar gyfer Dechrau'n Deg a gwasanaethau perthnasol yn dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd cynaliadwyedd yn cael ei gyflawni.

Gofal plant

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod gofal plant fforddiadwy a hygyrch yn galluogi rhieni i weithio, gan gefnogi'r sbardun i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau. Mae'n darparu cyfleoedd a manteision tymor hir i'n plant, ac yn gwella'u cyfleoedd bywyd hefyd. Dyma pam mae datblygu cynnig gofal plant hyblyg o safon uchel yn flaenoriaeth, fel yr amlinellir yn Symud Cymru Ymlaen.

Nod fy ymrwymiad i gynnig gofal plant am ddim, 48 wythnos y flwyddyn i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio yw cefnogi rhieni sydd eisoes yn y gwaith a helpu'r rhai sydd am weithio neu ddechrau busnes ond sy'n cael eu llesteirio gan gostau gofal plant ar hyn o bryd.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol, ochr yn ochr ag ymgysylltiad eang â rhieni a darparwyr, i ddatblygu a darparu'r cynnig. Ym mis Medi, lansiais yr ymgyrch #trafodgofalplant i ymgysylltu â rhieni a darparwyr. Mae llawer o rieni a darparwyr yn barod wedi ymateb a dangos diddordeb, a byddaf yn parhau i ymgysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol a wyneb yn wyneb dros y misoedd i ddod.

I'n helpu ni i ddatblygu a gweithredu'r cynnig, ym mis Awst fe wnaethon ni gysylltu ag awdurdodau lleol gyda'r nod o annog amryw ohonynt i ddod yn bartneriaid cynghorol a mabwysiadwyr cynnar. Cafwyd datganiadau o

ddiddordeb gan nifer fawr o awdurdodau lleol sy'n awyddus i weithio gyda mi ar ddatblygiad y cynnig gofal plant newydd. Cyn hir, byddaf yn cyhoeddi ym mha awdurdodau lleol y byddwn yn rhoi'r cynnig ar brawf yn ystod hydref 2017 i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion rhieni a bod modd i ddarparwyr gofal plant ei ddarparu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Byddaf am brofi sut mae'r cynnig yn gweithio i rieni mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft, rhieni plant ag anghenion ychwanegol, rhieni sydd eisiau darpariaeth Gymraeg a rhieni sy'n gorfod teithio i'r gwaith ac i'w darparwr gofal plant.

Ar gyfer 2017-18, mae **£10 miliwn** o gyllid refeniw wedi'i ddyrannu i brofi cam cyntaf y Cynnig. Yn ogystal, mae **£20 miliwn** y flwyddyn o 2018-19 ymlaen wedi'i gynnwys yn yr MEG Addysg ar gyfer buddsoddi mewn lleoliadau gofal plant ochr yn ochr â rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae gwaith modelu cost manwl yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r modelu a'r dadansoddi hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru / Frontier Economics yn ystod hydref 2015. Mae hwn yn ddarn o waith cymhleth iawn gan fod ffactorau allweddol megis nifer y plant cymwys, cyfraddau derbyn, nifer yr oriau, hyd cymhwysedd ac effaith cost yr awr ar yr amcangyfrifon cost. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, rwyf hefyd yn comisiynu adolygiad ariannol annibynnol o'r ddarpariaeth a'r gost o ddarparu gofal plant, a gwerth y sector gofal plant i economi Cymru. Bydd hyn yn gwneud cyfraniad mawr at adeiladu'r sail dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y cynnig gofal plant ac yn ein galluogi i ddarparu gofal plant a ariennir gan y llywodraeth sy'n ddeniadol i'r sector ac yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Rwy'n gwybod bod gofal plant ac addysg gynnar o safon yn arwain at well canlyniadau i blant. Gweithlu proffesiynol wedi ei gymhwyso'n dda yw'r ffactor pwysicaf o ran darparu gwasanaethau o safon a fydd yn rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant. I sicrhau darpariaeth o safon uchel, rwyf angen i'n hymarferwyr blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae allu darparu'r cymorth gorau posibl i blant i'w hannog i ddatblygu i'w potensial llawn. Bydd fy nghynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, a gyhoeddir yn ystod y gwanwyn nesaf, yn amlinellu cynlluniau uchelgeisiol i symud tuag at broffesiwn uchel ei barch sy'n gallu recriwtio a chadw gweithlu hynod fedrus ac sy'n mynd ati'n ddiwyd ym maes datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gwerthusiadau olynol wedi dod i'r casgliad bod gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn hanfodol i gefnogi pobl sydd angen gweithio neu ennill sgiliau a fydd yn eu galluogi i weithio. Ochr yn ochr â gofal plant fforddiadwy, efallai y

bydd rhai rhieni angen cymorth ychwanegol i ddychwelyd i'r gwaith a chynnal cyflogaeth. Mae rhai o'r rhwystrau i gyflogaeth yn cynnwys sefydlogrwydd ariannol, amharodrwydd i ddefnyddio gofal plant ffurfiol a diffyg hyder rhieni i ddychwelyd i'r gwaith, yn enwedig os ydynt wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am gryn amser. Mae grant Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn helpu rhieni i gael mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth trwy fynd i'r afael â rhwystrau a diwallu unrhyw anghenion gofal plant sy'n peri rhwystr iddynt. Yn y pen draw, dylai dros 1,500 o rieni gael cymorth i gael mynediad at gyflogaeth gynaliadwy.

Cafodd Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) ei lansio ar 13 Hydref 2015 ar gyfer rhieni dros 25 oed, gyda chyfanswm cyllideb o **£10.9 miliwn hyd at 2018**. Llywodraeth Cymru yw'r prif fuddiolwr, gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gyd-fuddiolwr. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyflogi 43 o Gynghorwyr Cyflogaeth Rhieni a fydd yn gweithio mewn safleoedd Dechrau'n Deg yn bennaf ac mewn canolfannau teulu eraill. Bydd yn targedu bron i 8,000 o rieni economaidd anweithgar dros oes yr ymgyrch ac yn cefnogi unig rieni a rhieni o aelwydydd heb waith neu'n helpu ail enillydd mewn aelwyd lle mae rhywun yn gweithio. Bydd yn gweithredu y tu allan i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ac yn ategu ymgyrch Cymunedau am Waith Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Nid oes unrhyw ddyraniad ychwanegol wedi'i wneud i'r gyllideb Gofal Plant a Chwarae er mwyn cefnogi PaCE ond mae'r arian cyfatebol angenrheidiol yn cael ei ddarparu trwy Gyllideb Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae gan y cynnig gofal plant y potensial i fod yn sbardun ar gyfer trawsnewidiad ehangach yn y sector gofal plant, gan wella hygyrchedd, fforddiadwyedd ac argaeledd gofal plant i rieni a phlant o bob oedran, gan wella hyblygrwydd ac ansawdd yr hyn sydd ar gael. Bydd hyn yn adeiladu ar y cymorth arall rwy'n ei ddarparu i ddarparwyr gofal plant ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- Darparu £2.3 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol ers 2012 i'w helpu i ddarparu gofal plant cofleidiol y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau. Yn unol â'm blaenoriaethau, mae awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar gynnig gofal plant y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau i blant o deuluoedd incwm isel ac i'r rhai ag anghenion penodol;
- Darparu dros £4.3 miliwn dros dair blynedd (ers mis Medi 2014) i gonsortia CWLWM, sy'n cynnwys y pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru, i gefnogi'r sector gofal plant a'n helpu ni i ddatblygu atebion gofal plant arloesol i ddiwallu anghenion teuluoedd;

- Sicrhau £6.3 miliwn yn y Gorllewin a'r Cymoedd, a ariennir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, i wella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu gofal plant presennol;
- Gweithio gydag AGGCC i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn addas i'r diben a bod y gwaith rheoleiddio ac arolygu'n sicrhau bod plant a rhieni yng Nghymru yn gallu cael gafael ar ofal plant diogel o ansawdd uchel;
- Y cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) sy'n darparu help, cymorth, arweiniad a chynghor diduedd am ddim i deuluoedd a darparwyr gofal plant.
- Darparu cynghor a chymorth busnes i ddarparwyr gofal plant trwy Busnes Cymru.

Rwyf hefyd yn arwain prosiect 'Cynnydd ar gyfer Llwyddiant' (PfS) Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sydd wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â'r cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Prif ddiben PfS yw gwella ansawdd y ddarpariaeth mewn safleoedd a gynhelir ac nas cynhelir cofrestredig trwy gynyddu lefelau'r cymwysterau gofal plant a chwarae cydnabyddedig sydd gan y gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae presennol.

Cymorth Arall i Deuluoedd

- **Teuluoedd yn Gyntaf**

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesol sy'n hyrwyddo datblygiad systemau a chymorth amlasiantaethol effeithiol i deuluoedd gan bob awdurdod lleol, gyda phwyslais clir ar **atal ac ymyrraeth gynnar** i deuluoedd, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn **tlodi**. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynnal y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn 2017-18.

Yn ystod 2017-18, byddaf yn gwneud newidiadau i elfen prosiectau a gomisiynir Teuluoedd yn Gyntaf. Rwyf wedi cytuno i gyfnod pontio hir er mwyn i effeithiau llawn y newidiadau gael eu hystyried. Bydd newidiadau a gyflwynir yn raddol yn ystod 2017-18 yn sicrhau bod y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gallu canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer rhieni a phobl ifanc (gan cynnwys gwaith ieuencid), gan gysylltu'r rhaglen ag atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn sbardun pwysig mewn perthynas â datblygiad dulliau 'Tîm o Amgylch y Teulu' (TAF) amlasiantaethol. Ar hyn o bryd, Cymru yw'r unig wlad yn y DU sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob ardal awdurdod

lleol ddatblygu a chyflwyno 'Tîm o Amgylch y Teulu', ac mae awdurdodau lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio'r dull mewn Rhaglenni eraill hefyd.

Mae tystiolaeth o werthusiadau'n dangos bod Teuluoedd yn Gyntaf wedi cyflwyno newid mawr yn y ffordd mae pob awdurdod lleol yn darparu cymorth i deuluoedd. Cydnabyddir bod gwaith amlasiantaethol yn hanfodol ac mae'r rhaglen wedi gwella'r ffordd mae asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ein teuluoedd mwyaf agored i niwed. Cafodd y trydydd adroddiad o'r Gwerthusiad Cenedlaethol o Teuluoedd yn Gyntaf ei gyhoeddi ym mis Medi 2015. Amlygodd yr effaith drawsnewidiol y gallai'r rhaglen ei chael ar fywydau teuluoedd. Yn arbennig, cofnododd teuluoedd gynnydd yn y meysydd canlynol: plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach ac yn mwynhau llesiant; teuluoedd yn hyderus, yn meithrin, yn gadarn ac yn ddiogel; a phlant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi neu'n wynebu risg o fod mewn tlodi yn cyrraedd eu potensial. Nododd y gwerthusiad diweddar hefyd yr arbedion cost mawr y gallai'r rhaglen eu gwneud trwy helpu teuluoedd i osgoi canlyniadau tymor hir gwael. Erbyn hyn, mae'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn adlewyrchu anghenion teuluoedd yn well nag erioed. Mae'r ffaith bod y dull o asesu a theilwra cymorth i deuluoedd yn canolbwyntio ar y teulu yn gwneud gwahaniaeth mawr i ganlyniadau teuluoedd, ac mae cyfleoedd bywyd yn gwella o ganlyniad i hynny.

- **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**

Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn cael ei ddarparu'n bennaf trwy Grant Cynnal Refeniw (RSG) yr Awdurdod Lleol. Ar hyn o bryd, mae'r Is-adran Plant a Theuluoedd yn cyfrannu **£45,000 y flwyddyn** at weithgareddau cydgysylltu a chyfathrebu gyda'r rhaglen Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS). Mae'r grant hwn yn sicrhau bod gweithwyr FIS yn derbyn hyfforddiant a datblygiad personol, yn gallu rhannu arfer da ac yn nodi unrhyw fylchau allweddol yn y ddarpariaeth. Mae hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer sicrhau bod negeseuon cyson mewn perthynas â pholisi allweddol yn gallu cael eu cyfathrebu'n effeithiol i FIS.

- **Cymorth Rhianta**

Mae fy null o ymdrin â rhianta cadarnhaol wedi ei seilio'n gadarn yng nghydestun gwelliant economaidd a llesiant ehangach. Fel yr amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu 'Symud Cymru Ymlaen', rydym wedi ymrwymo i helpu i wella iechyd a llesiant pawb i sicrhau bod pawb yn gallu cyrraedd eu potensial, cyflawni eu dyheadau addysgol a gwneud cyfraniad llawn at economi a chymdeithas Cymru.

Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddileu amddiffyniad o gosb resymol yn rhan allweddol o'm camau cyffredinol ar hyrwyddo rhianta cadarnhaol, sbarduno newid ymddygiad a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'n plant yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ddarparu gwybodaeth a chynghor trwy wefan Rhianta: Rhowch amser iddo, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a Pwynt Teulu Cymru a thrwy gymorth ymarferol trwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae cyllideb o £0.4 miliwn wedi'i nodi i ddatblygu fy ngwaith ar rianta cadarnhaol y flwyddyn nesaf. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu hyd yma ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol.

- **Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd (CFDG)**

Mae'r pum prosiect Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd yn mynd yn eu blaen yn ôl y bwriad. Bydd y rhaglen bresennol yn dod i ben yn 2017-18. Nid yw'r dyraniadau grant wedi newid ers dyfarnu'r grant. Fodd bynnag, mae Plant yng Nghymru wedi cael gwaith ychwanegol, a dyfarnwyd iddynt **£0.240 miliwn y flwyddyn** dros 4 blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2017. Mae'r cyllid ychwanegol yn dod o'r BEL Grymuso Plant (311), ond fe'i telir trwy'r CFGD er hwylustod.

Byddaf yn adolygu dyfodol y grant hwn yn ystod 2017-18.

Tlodi Plant

Nid oes gan Lywodraeth Cymru gyllideb ar wahân ar gyfer trechu tlodi plant. Y rheswm am hyn yw bod pob math o bolisiau a rhaglenni ar waith i drechu tlodi plant, a bod y rhain yn datblygu o hyd. Mae hyn yn cynnwys ymrwymadau allweddol megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Grant Amddifadedd Disgyblion a Rhaglen Plant Iach Cymru. Mae yna hefyd bob math o wasanaethau prif ffrwd eraill sy'n darparu cymorth i aelwydydd incwm isel sy'n rhan o drefniadau ariannu ehangach.

Mae trechu tlodi yn dal i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Er bod gan Ken Skates gyfrifoldeb cyffredinol dros gydraddoldeb economaidd, disgwylir i bob un o Ysgrifenyddion y Cabinet gyfrannu at yr agenda a gwella canlyniadau aelwydydd incwm isel.

Hawliau Plant a Phobl Ifanc

Mae cyllideb o **£0.357 miliwn** wedi'i dyrannu ar gyfer y gwaith canlynol yn 2017-18. Mae'r rhaglen waith arfaethedig yn datblygu ymrwymadau Gweinidogion mewn perthynas â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i ysgwyddo ein cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth ac, yn bwysicach fyth, i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed wrth i ni ddatblygu a gweithredu polisi o dan y llywodraeth newydd hon.

Mae Adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i gymryd camau priodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r Protocolau. Nod y ddyletswydd hon yw gwireddu'r rhwymedigaethau sydd ar y llywodraeth, gan sicrhau bod CCUHP yn rhan o'r fframwaith ar gyfer gwneud pob penderfyniad. Mae hyn wedi'i amlinellu yn Erthygl 42 o CCUHP sy'n nodi y dylai Llywodraethau sicrhau bod oedolion a phlant yn ymwybodol o'r Confensiwn. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a'i Brotocolau Dewisol ymhlith plant, oedolion a sefydliadau yn gwneud cyfraniad pwysig at sicrhau bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau ynddynt yn cael eu parchu.

Mae mesur cynnydd mewn ymwybyddiaeth wedi bod yn her fawr. Fodd bynnag, y llynedd fe lwyddais i gynnwys rhai cwestiynau yn Arolwg Beaufort ynghylch ymwybyddiaeth o CCUHP. Rhoddodd hyn linell sylfaen i mi a bydd yr un cwestiynau'n cael eu gofyn eleni eto. Yn ogystal, rwy'n gobeithio cael rhai cwestiynau wedi'u cynnwys yn yr arolwg cenedlaethol.

Comisiynydd Plant Cymru

Mae cyllideb y Comisiynydd wedi'i diogelu ers nifer o flynyddoedd ond, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, rwyf wedi nodi'n glir mai fy mlaenoriaeth o reidrwydd yw gwasanaethau rheng flaen sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant, pobl ifanc a theuluoedd. I'r perwyl hwn, cafodd cyllideb y Comisiynydd ei lleihau 10% ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 a bydd y lefel yn **aros yr un fath ar gyfer 2017-18**. Roedd pob Comisiynydd yn wynebu'r un toriad canrannol ar gyfer 2016-17. Mae'r Comisiynydd wedi adolygu trefniadaeth ei swyddfa ac yn cyflawni o fewn y gyllideb lai.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cael gwneud sylwadau ar sut mae'r Comisiynydd yn dyrannu'r gyllideb sydd ar gael iddi. Nid yw'r amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer 2017-18 yn cyfeirio at unrhyw gostau posibl sy'n gysylltiedig â rhoi argymhellion yr **Adolygiad Annibynnol o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru** ar waith. Roedd llawer o'r argymhellion yn ymwneud â gwella gwerth am arian ac mae hyn wedi helpu'r Comisiynydd i adolygu ei strwythur i sicrhau arbedion.

Eiriolaeth

Pan fydd yn cael ei rhoi ar waith, bydd y Cyfeiriad Cenedlaethol ar gyfer darparu Eiriolaeth Statudol ar gyfer plant â hawl statudol yn darparu hawl gyson ac ymarfer da wrth gomisiynu, darparu a sicrhau ymwybyddiaeth o ddarpariaeth eiriolaeth statudol yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn cefnogi gweithwyr proffesiynol, teuluoedd a'r rhai sy'n hyrwyddo a diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc trwy rwydweithio ehangach, gan wella'r model partneriaeth i wneud y gwasanaeth yn rhan annatod o sectorau proffesiynol eraill. Mae gwasanaethau eiriolaeth yn gallu helpu hefyd i ddiogelu'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed a'u gwarchod rhag ymarfer gwael.

Bydd cynllun gweithredu lle bydd yr ymagwedd genedlaethol a Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu cyflwyno'n raddol yn cael ei fonitro. Mae hwn yn cael ei ddatblygu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd a bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno arno. Byddaf yn monitro gwybodaeth feintiol ac ansoddol yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol cytunedig.

I sicrhau bod cyllidebau'n cyfateb i'r portffolios Gweinidogol newydd, yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin 2016, trosglwyddwyd **£1.06 miliwn** o'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r MEG Cymunedau a Phlant. Roedd y trosglwyddiad hwn yn cynnwys **£190,000** a ddefnyddir i gefnogi gwasanaethau eiriolaeth i Oedolion. O ganlyniad, bydd yr arian hwn yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr Ail Gyllideb Atodol. Mae hyn yn gadael cyllideb o **£0.870 miliwn** yn yr MEG Cymunedau a Phlant ar gyfer 2017-18.

Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys datblygiad Llinell Gymorth MEIC. Dyma'r llinell gymorth gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth genedlaethol gyntaf o'i bath sy'n darparu un pwynt cyswllt i blant a phobl ifanc trwy radffôn, negeseua gwib a negeseuon testun. Ym mis Ebrill 2016, dyfarnwyd contract dwy flynedd (gyda'r opsiwn o ddwy flynedd ychwanegol) i Promo Cymru yn dilyn ymarfer tendro cyhoeddus yn 2015.

O'r tymor byr i'r tymor hir, MEIC fydd y pwynt cyswllt cyntaf i blant a phobl ifanc, ynghyd â'r rhai sy'n poeni amdanynt, i gael mynediad at gymorth cyfrinachol annibynnol sy'n eu galluogi i fynegi eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt. Bydd yn hyrwyddo, diogelu a sicrhau hawliau plant a phobl ifanc, gan ddarparu gwybodaeth, cymorth ac eiriolaeth hygyrch sy'n briodol i amgylchiadau, anghenion a dewisiadau cyfathrebu'r unigolyn. Bydd yn sicrhau darpariaeth o safon gan staff proffesiynol, cymwys a medrus, gan gefnogi cyfleoedd datblygu a hyfforddi i blant a phobl ifanc.

Bydd MEIC yn sicrhau hygyrchedd a chynhwysiant o ran amrywiaeth a chydaddoldeb mewn perthynas â'r Gymraeg, nam ar y clyw/golwg, anawsterau dysgu, llythrennedd, diwylliant, rhyw, rhywioldeb ac unrhyw faterion eraill ledled y gwasanaeth.

Yn 2014, comisiynwyd 20 Degrees Consulting Ltd i gynnal gwerthusiad o MEIC i werthuso'r effeithiolrwydd, yr effaith a'r gwerth am arian a ddarperir gan MEIC wrth ddarparu cyngor ac eiriolaeth genedlaethol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae canlyniadau'r adolygiad hwnnw wedi llywio'r contract newydd a aeth allan i dendr cyhoeddus yn 2015.

Ystyrir bod y rhaglen waith yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi trwy roi mwy o rym i weithwyr proffesiynol ddiogelu plant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu gael niwed a thrwy sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc, gan eu galluogi i gael trafodaethau gwybodus ynghylch y materion sy'n effeithio ar unrhyw agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys eu hiechyd a'u lles.

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn un o themâu allweddol y rhaglen waith gwella canlyniadau. Mae'r rhaglen waith yn cael ei darparu gan ddefnyddio dull cydweithredol. Nod y rhaglen newid tymor hir yw darparu gwasanaethau ataliol cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar les y plentyn. Mae llais plant yn rhan annatod o'r ffordd rwy'n gweithio ac mae'n cael ei gynrychioli gan unigolyn ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n is-gadeirydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog a thrwy fod yn aelod o Voices from Care, Plant yng Nghymru a'r Comisiynydd Plant.

Polisi Chwarae

Mae cyllid ar gyfer chwarae wedi'i ddarparu trwy'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd, sydd wedi bod yn helpu Groundwork Cymru i ddarparu profiadau chwarae awyr agored i blant mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Yn ogystal, mae grant penodedig wedi ariannu Chwarae Cymru, gan ei alluogi i godi

ymwybyddiaeth o angen a hawl plant a phobl ifanc i chwarae, hyrwyddo arfer da a darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi'r rhai sydd â diddordeb mewn darparu cyfleoedd chwarae i blant, neu sydd â chyfrifoldeb i wneud hynny. Mae'r cyllid ar gyfer y ddau sefydliad yn dod i ben ym mis Medi 2017. Eu dyfarniadau grant ar gyfer 2017-18 yw £204,495 a £120,000. Ar hyn o bryd, rwy'n ystyried opsiynau i ddarparu cymorth ar gyfer yr agenda chwarae yng Nghymru ar ôl mis Medi 2017.

CAFCASS Cymru

Mae Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru yn sefydliad darparu gwasanaethau uniongyrchol sy'n cyflawni swyddogaethau statudol ledled Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Yn 2015-16, bu'n gweithio gyda 7,500 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Nid yw polisi Cyfiawnder teuluol wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae CAFCASS Cymru yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS), ac mae ond yn ymyrryd mewn achosion pan fo'r llys yn gofyn iddo wneud hynny. Ei rôl yw diogelu plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion llys teulu a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn y System Cyfiawnder Teuluol.

Y dyraniad ariannol ar gyfer 2016-17 yw **£10.162 miliwn**, ac mae wedi'i rannu ar draws costau rhedeg uniongyrchol a rhaglenni, sy'n cynnwys cyfraniad o gyllid i ganolfannau cyswllt sy'n cael eu goruchwyllo a'u cefnogi a gweithgareddau cyswllt sy'n ymwneud â Deddf Plant a Mabwysiadu 2006.

Mae cyllideb costau rhedeg y sefydliad (**£9.830 miliwn**) wedi'i rhannu rhwng costau staff (£9.063 miliwn) a chostau eraill (£0.767 miliwn), sy'n golygu bod 92% o gyllideb costau rhedeg y sefydliad wedi'i hymrwymo i gostau staff, gan ddarparu dyletswyddau statudol i lysoedd ledled Cymru.

Mae'r gyllideb contractio allan wedi'i dyrannu i Wasanaethau Cyswllt Plant (**£0.242 miliwn**) a system reoli IRIS (**£0.090 miliwn**). Mae'r gyllideb hon wedi'i hymrwymo'n llawn ar sail Weinidogol neu gytundebol. Yn 2015-16, cyflwynwyd system rheoli achosion newydd (IRIS). Er mwyn i'r system hon gael ei rhoi ar waith, derbyniodd y sefydliad gyllid 'Buddsoddi i Arbed' o **£210,000**. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ad-dalu yn ystod blynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18, ar raddfa o **£105,000 y flwyddyn**.

Mae'r gyllideb yn dal i fod ar yr un lefel, er gwaethaf y cynnydd yn y galw am atgyfeiriadau dros y 12 mis diwethaf. Mae'r sefydliad wedi darparu rhaglen newid sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y gwaith a gyflawnwyd yn cynnwys Adolygiad Gweinyddol ac adolygiad LEAN o swyddogaethau gweinyddol a arweiniodd at fodel gweinyddu cyson, syml a mwy effeithlon ledled Cymru.

Er bod y rhaglen newid fawr wedi'i chwblhau, mae angen parhau i amsugno costau cynyddol y galw am wasanaethau ac adolygu arferion yn gyson er mwyn gwella effeithlonrwydd. Yn ystod 2016-17, lanswyd Rhaglen Arloesi gyda'r nod o wella effeithlonrwydd a'r gallu i ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau.

Dros y 12 mis diwethaf, mae atgyfeiriadau Cyfraith Breifat wedi cynyddu 13.6% ac atgyfeiriadau Cyfraith Gyhoeddus wedi cynyddu 11.5%. Bu cynnydd o 8.6% yn nifer yr achosion gofal, sef y gwaith sy'n defnyddio'r mwyaf o adnoddau, ac mae'r duedd hon wedi parhau yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, bydd **canlyniadau** cyffredinol yn parhau i gyflawni'r targed statudol o 26 wythnos ar gyfer cwblhau achosion gofal mewn cyfraith gyhoeddus a sicrhau bod y sefydliad yn parhau i weithredu heb restr aros i blant. Mae'r gwaith hwn hefyd yn ceisio sicrhau datrysiad cynnar yn y llys er mwyn cyflawni canlyniadau cynnar ar gyfer plant.

Bydd canlyniadau'n cael eu mesur trwy adroddiadau misol ar wybodaeth perfformiad rheoli yn fewnol ac i bartneriaid allanol a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid i graffu ar gontractau/grantiau a'u hadolygu i sicrhau gwerth am arian/ansawdd gwasanaethau i blant.

Mabwysiadu, Maethu a Phlant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r gyllideb hon yn ceisio mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) trwy ddatblygu rhaglen waith a fydd yn gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys mabwysiadu a lleoliadau eraill. Mae'r gyllideb hon yn cyfrannu at leihau ACES, yn cefnogi blaenoriaethau atal ac ymyrraeth gynnar ac yn gwella'r canlyniadau mesur llesiant. Bydd llwyddiant y gwaith hwn yn cael ei fesur yn erbyn:

- Fframwaith perfformiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;
- Cofrestr Mabwysiadu Cymru (data perfformiad chwarterol);
- Fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth (dangosydd);

- Fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol;
- Casgliadau data gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Mae'r Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, iechyd, y system llysoedd, addysg a thai fel bod cydberchnogaeth a chysylltiadau effeithiol yn cael eu darparu. Bydd gan y Grŵp Cyngori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant gyfrifoldeb i oruchwyllo'r canlyniadau sy'n gwella ar gyfer y rhaglen waith plant. Rwy'n cael cyfarfodydd teirochrog rheolaidd gyda Gweinidogion ac Ysgrifenyddion y Cabinet i drafod blaenoriaethau cyffredin yn y rhan hon o'm portffolio.

I sicrhau bod y cyllidebau'n cyfateb i'r portffolios gweinidogol newydd, bydd y cyllidebau a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o gynnal a datblygu mabwysiadu, maethu a phlant sy'n derbyn gofal yn trosglwyddo o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r MEG Cymunedau a Phlant fel rhan o'r Ail Gyllideb Atodol ym mis Ionawr/Chwefror 2017.

Mae gwerthusiad gan CASCADE (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant) wedi'i gynnwys yn y prosiectau o fewn y rhaglen waith i sicrhau gwerth am arian. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cynaliadwy mewn ffyrdd arloesol trwy ymyrraeth gynnar i gefnogi gwell canlyniadau.

Mae yna ddau faes sy'n gallu effeithio ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal, 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014' a 'Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016' yw prif sail ddeddfwriaethol y rhaglen waith. Bydd yr is-ddeddfwriaeth, rheoliadau, o dan Ran 2 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei chydgynhyrchu. Mewn perthynas ag eiriolaeth, bydd deddfwriaeth bellach o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (2015) yn cael ei chyflwyno yn 2017.

Carl Sargeant AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) CYMUNEDAU A PHLANT					
CYLLIDEB ADNODDAU – Terfyn Gwariant Adrannol					
Maes Rhaglenni Gwariant (SPA)	Camau Gweithredu	Teitl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	Alldro Terfynol 2015-16 £000	Alldro a ragwelir 2016-17 £000	Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2017-18
Tudalen y pecyn 57	Cefnogi Plant	Strategaethau Gofal Plant a Chwarae	2,682	3,066	12,716
		Cymorth ar gyfer Hawliau Plant	207	357	357
		Comisiynydd Plant	1,715	1,543	1,543
		Bwrdd Eiriolaeth*	856	870	870
		Grantiau sy'n Cefnogi Gwasanaethau Plant a Theuluoedd*	115	570	570
		Gwasanaethau i Blant*	531	352	352
		CAFCASS Cymru*	10,375	10,162	10,267
	Atal ac Ymyrraeth Gynnar	Atal ac Ymyrraeth Gynnar	160,788	155,533	154,383
	Cynhwysiant Ariannol a'r Trydydd Sector	Cymorth ar gyfer y Sector Gwirfoddol/Gwirfoddoli	6,800	6,125	6,125
		Cynhwysiant Ariannol	13,349	13,927	13,927
			197,418	192,505	201,110

CYLLIDEB GYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol					
Maes Rhaglenni Gwariant (SPA)	Camau Gweithredu		Alldro Terfynol 2015-16 £000	Cyllideb derfynol 2016-17 £000	Dyraniadau Cyllideb Ddrafft 2017-18
Cymunedau a Threchu Tlodi	Cymunedau a Threchu Tlodi	Cyfalaf Dechrau'n Deg	6,892	3,000	1,260

Maes Rhaglenni Gwariant (SPA)	Camau Gweithredu	Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Cymunedau a Threchu Tlodi	Cymunedau a Threchu Tlodi	Cyfalaf Dechrau'n Deg	1,260	566	529	860

* Alldro 2015-16 yn rhan o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithas

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant: Ymestyn y Fframwaith Cofrestru Gofal Plant**Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant**

Teitl / Darn o waith:	Ymestyn y Fframwaith Cofrestru Gofal Plant ym "Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010"
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yw'n berthnasol)	SF/LG/2075/15
Enw'r Swyddog:	Jenna Smith
Adran:	Yr Is-adran Datblygu Gofal Plant
Dyddiad:	xx/03/2016
Llofnod:	

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir ichi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant ee ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.


Ar ôl ei gwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol CRIA@wales.gsi.gov.uk.

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau Asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur trwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio CRIA@wales.gsi.gov.uk.

Efallai y dymunwch groes-gyfeirio gydag Asesiadau Effaith eraill a gyflawnwyd.

DS. Rhaid cyhoeddi pob Asesiad a wneir yn ôl deddfwriaeth. Bydd pob Asesiad anneddfwriaethol yn cael ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob Asesiad a gwblheir.

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae angen cofrestru gofal plant pan fo darparwyr yn gofalu am blant hyd at wyth mlwydd oed. Mae'r gofyniad hwn wedi'i amlinellu yn Adran 19 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ac mae'n cynnwys darparwyr gofal dydd yn ogystal â gofaluwyr plant. Rhaid i ddarparwyr gofal plant cofrestredig lynu wrth y rheoliadau perthnasol ac wrth y safonau a amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Caiff safon y gofal eu sicrhau drwy broses arolygu a rheoleiddio gan AGGCC yn erbyn y safonau hyn. Mae gofal plant a reoleiddir yn cwmpasu ystod eang o ddarpariaeth gan gynnwys gofaluwyr plant, meithrinfeydd dydd, gofal plant y tu allan i'r ysgol, darpariaeth chwarae agored, a cynlluniau chwarae gwyliau.

Rydym yn cynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gofal plant y tu hwnt i 8 oed am y rhesymau canlynol:

- Mae'r system reoleiddio bresennol yng Nghymru yn golygu nad oes dull cyson o reoleiddio ansawdd ac addasrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer plant 8 oed a throsodd. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn rhannau eraill o'r DU.
- Yn y ddogfen Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r trefniadau rheoleiddio ac arolygu ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Gwnaeth yr [Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar](#), a gyhoeddwyd yn 2014, argymhell y dylai pob darpariaeth gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys gofal ar gyfer plant wyth oed a throsodd, gael ei chofrestru a'i harolygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod fframwaith cofrestru priodol yn ei le yng Nghymru, sy'n rhoi sicrwydd ynghylch addasrwydd a diogelwch gofal plant i bob plentyn. Bydd hyn o fudd i'r plentyn yn ogystal â rhieni/gofaluwyr a darparwyr gofal plant.
- Mae Cymru hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod [Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawlliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#) yn cael ei gynnal ar draws yr holl waith polisi. Mae'r confensiwn yn cynnwys yr angen i sicrhau bod plant yn cael gofal priodol, bod pobl yn gwrando ar eu sylwadau a'u bod yn cael cymorth gydag unrhyw anabledd sydd ganddynt. Rydym eisiau sicrhau bod yr erthyglau sydd yn y confensiwn yn cael eu cynnal ar gyfer plant hŷn mewn gofal plant yn ogystal â phlant bach.

Prif nodau'r newidiadau arfaethedig yw sicrhau'r canlynol:

- **Cymesuredd** - bod y gofal a ddarperir i blant yn cael ei reoleiddio mewn ffordd gymesur gan gymryd i ystyriaeth anghenion ac oedran y plentyn.
- **Ansawdd** - bod gwasanaeth gofal o safon yn cael ei ddarparu i blant o bob oed, ar draws pob ystod o ddarpariaeth.
- **Diogelwch** - bod pob plentyn yn cael gofal mewn amgylchedd diogel.

Y canlyniad a ddymunir fydd cynnydd yn nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru ar gyfer plant 0 i 12 oed.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth ddatblygu cynigion i gyflawni ein hamcan polisi i sicrhau bod fframwaith cofrestru gofal plant priodol yn ei le ar gyfer plant 8 oed a throsodd. Roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Y terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru darparwyr gofal plant;
- A ddylid cael system reoleiddio wirfoddol neu orfodol ar gyfer plant 8 oed a hŷn.

Gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru ymgymryd â nifer o weithgareddau wrth ddatblygu'r polisi hwn. Yn gyntaf, aeth ati i ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r sector gofal plant drwy CWLWM, sef consortiwm o'r 5 prif sefydliad yn y sector gofal plant. Roedd cynrychiolwyr o'r sector chwarae a'r awdurdodau lleol hefyd yn rhan o'r broses. Yn olaf, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o 12 wythnos rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015 i gasglu sylwadau am y newidiadau arfaethedig i'r broses o gofrestru darpariaeth gofal plant yng Nghymru. Trefnwyd digwyddiadau ymgynghori yn y gogledd ac yn y de ar lefel strategol o fewn awdurdodau lleol a'r sectorau gofal plant, chwarae ac ieuentid. Hefyd cynhaliwyd digwyddiadau ar lefel leol ar gyfer darparwyr mewn partneriaeth â chonsortium gofal plant CWLWM a Chwarae Cymru.

Er bod yr ymgynghoriad yn gyhoeddus ac ar agor i bawb, ni chysylltwyd yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, cafwyd trafodaethau yn y digwyddiadau ymgynghori ynghylch effaith y newidiadau arfaethedig ar blant, a chynhaliwyd digwyddiad penodol gyda'r gwasanaeth ieuentid sy'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Yn ystod digwyddiadau ar ôl yr ymgynghoriad, gofynnwyd i ddarparwyr nodi eu hawgrymiadau gorau ar gyfer ymgysylltu â phlant 8 oed a throsodd a gofalu amdanynt. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i greu canllawiau ar gyfer darparwyr ar ofalu am blant, er mwyn dysgu gwersi am y mathau o anghenion fydd gan blant hŷn.

Cafwyd cefnogaeth eang o'r sector gofal plant i'r syniad o ehangu'r broses gofrestru i blant 8 oed a throsodd. Un o'r rhesymau a nodwyd ar gyfer cefnogi'r cynigion oedd yr angen i drin pob plentyn yn gyfartal yn unol â dull gweithredu ar sail hawliau'r CCUHP; ac roedd y sylwadau a ddaeth i law yn cyfeirio at y ffaith bod plant 8 oed a throsodd yn haeddu gofal o'r un safon â phlant iau. Ceir crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru [yma](#).

Yn dilyn yr ymgynghoriad ac yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law, penderfynwyd ymestyn y terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru darpariaeth gofal plant o 8 i 12 oed o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu mai dyma'r terfyn oedran uchaf lle'r oedd y rhan fwyaf o rieni'n defnyddio gofal plant ffurfiol. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod y system gofrestru yng Nghymru yn gyson â'r trefniadau yn rhannau eraill o'r DU, yn cyd-fynd â'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a gyflwynir yn 2017 ac yn helpu i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnwys gweithgareddau cymorth ieuentid yng nghwmpas y maes cofrestru gofal plant.

Fel rhan o'r trefniadau i ymestyn y broses o gofrestru gofal plant, bydd hefyd angen gwneud rhai newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Rhaid i'r newidiadau hyn ystyried y gofynion gwahanol ar gyfer plant hŷn er mwyn sicrhau bod eu gofal yn cael ei reoleiddio mewn ffordd sy'n gymesur i'w hoedran a'r cynnydd yn eu hannibyniaeth. Bydd y newidiadau hyn yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, canlyniadau'r ymgysylltu â'r sector gofal plant a chwarae, a'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhannau eraill o'r DU. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y newidiadau'n rhoi sylw dyledus i'r CCUHP.

Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys diwygio'r gofynion o ran cymwysterau er mwyn sicrhau bod darparwyr yn gymwys i ofalu am blant hyd at 12 oed, a diwygio'r cymarebau oedolion i blant er mwyn sicrhau bod darparwyr yn gallu darparu gofal diogel o safon i blant, tra'n lleihau cymaint â phosibl ar yr effeithiau negyddol y gallai newidiadau o'r fath eu cael. Cafodd y newidiadau hyn eu seilio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gwaith ymgysylltu pellach â'r sector gofal plant ar ôl yr ymgynghoriad, a gwybodaeth am y ddarpariaeth gofrestredig bresennol gan AGGCC.

Yn sgil cynyddu'r terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru gofal plant, gwnaed trefniadau hefyd i ymestyn yr eithriadau presennol i'r trefniadau rheoleiddio gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth nad yw'n fwy na dwy awr o ofal mewn diwrnod, a darpariaeth lle mae gofalu yn darparu hyfforddiant mewn gweithgareddau penodol e.e. chwaraeon neu'r celfyddydau perfformio. Yn unol â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd

gwasanaethau ieuencid i blant 11 oed hefyd yn cael eu heithrio o'r gofyniad i gofrestru gofal plant.

Cysylltiadau â CCUHP

Cyn yr ymgynghoriad, rhoddwyd ystyriaeth i'r CCUHP wrth ddatblygu'r newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y cynigion yn yr ymgynghoriad yn ategu'r safonau presennol ac yn bodloni amcanion perthnasol y CCUHP. Nodwyd yr erthyglau a allai fod yn berthnasol i'r newidiadau deddfwriaethol hyn ar ddechrau'r broses o ddatblygu'r polisi.

Rydym wedi cydweithio'n ofalus â'r sector a darparwyr i sicrhau bod ein gofynion yn addas i'r diben ar gyfer plant hŷn. Rydym wedi nodi drwyddi draw yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig bod angen i blant hŷn gael dweud eu dweud ynghylch eu dymuniadau a'u hanghenion, a dylanwadu ar y lleoliad. Hynny er mwyn annog a chefnogi plant hŷn i feithrin sgiliau pwysig a datblygu yn ystod eu hamser yn y lleoliad gofal plant neu chwarae.

Bydd y newidiadau hyn yn cynyddu'r baich rheoleiddio ar y sector. Fodd bynnag, rydym wedi ceisio sicrhau bod unrhyw ofynion ychwanegol ar ddarparwyr yn gymesur ac yn cymryd i ystyriaeth y sylwadau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi gweithio gyda AGGCC i sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gefnogi pob darparwr gofal plant er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n ddidrafferth â'r rheolau cofrestru newydd a'r newidiadau i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r trefniadau hyn yn lleihau'r baich ar ddarparwyr ac yn lleihau'r posibilrwydd o darfu ar eu busnes. Yn ogystal, mae unrhyw newidiadau a wneir i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gymesur â'r amseroedd cyflwyno a ddarperir, lle bo angen, i liniaru effaith y newidiadau a lleihau'r posibilrwydd o gynydd mewn costau. Maent hefyd yn adlewyrchu un o brif egwyddorion y CCUHP, sef erthygl 3, o ran sicrhau'r hyn sydd orau i'r plentyn.

Cam 3. Sut mae'r darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Bydd ein newid polisi yn cynnal nifer o erthyglau yn y CCUHP, gan gynnwys y canlynol:

- Mae **Erthygl 3** yn datgan y dylai pob sefydliad weithio at yr hyn sydd orau i'r plentyn. Mae'r hyn sydd orau i'r plentyn wrth wraidd ein newidiadau, ac mae hyn yn golygu sicrhau bod gwasanaethau sy'n gofalu am blant yn cydymffurfio â'r safonau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Prif nod y safonau hyn yw sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel.
- Mae **Erthygl 12** yn datgan bod rhaid i'r plentyn allu mynegi ei sylwadau mewn ffordd sy'n gymesur i'w oedran a'i aeddfedrwydd. Rydym wedi cydweithio'n ofalus â sector a darparwyr ar ôl yr ymgynghoriad i sicrhau bod ein gofynion yn addas i'r diben ar gyfer plant hŷn, ac nid ydym wedi rhagdybio bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol yn ddigonol ar gyfer rheoleiddio gofal i blant dros 8 oed. Rydym wedi nodi drwyddi draw yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig bod angen i blant hŷn gael cyfle i ddweud eu dweud ynghylch eu dymuniadau a'u hanghenion, a dylanwadu ar y lleoliad. Hynny er mwyn annog a chefnogi plant hŷn i feithrin sgiliau pwysig a datblygu yn ystod eu hamser yn y lleoliad gofal plant neu chwarae.
- Mae **Erthygl 18** yn datgan y dylai'r Llywodraeth gefnogi rhieni i ofalu am blant, yn enwedig pan fydd y ddau riant yn gweithio. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad statudol i sicrhau bod gofal plant o ansawdd uchel ar gael ar draws Cymru sy'n gynaliadwy a fforddiadwy, ac mae'n cydweithio'n agos â'r Awdurdodau Lleol i gyflawni hyn. Bydd y newid polisi hwn yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei diogelu ar gyfer plant hyd at 12 oed. Bydd hefyd yn caniatáu i rieni fanteisio ar y cymorthdaliadau treth a budd-dal sydd ar gael i rieni ar draws y DU sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig er mwyn helpu i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy.
- Mae **Erthygl 19** yn datgan bod yn rhaid i'r llywodraeth ddiogelu plant rhag camdriniaeth gan ddefnyddio'r holl bwerau sydd ganddi. Wrth gofrestru, bydd angen i leoliadau gofal plant gydymffurfio ag adrannau 9.6-9.9 (Ymddygiad), 20.1-20.6 (Amgylchedd) a 24.12 (Diogelwch) o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Drwy ymestyn i safonau hyn i blant hŷn byddwn yn gwella'r gweithdrefnau diogelu.

- Mae **Erthygl 23** yn datgan y dylai aelod-wladwriaethau sicrhau bod plant anabl yn cael gofal a chefnogaeth arbenigol er mwyn byw bywydau llawn ac annibynnol. Wrth gofrestru, bydd angen i leoliadau gofal plant gydymffurfio ag adrannau 4.8 a 4.9 (Diwallu anghenion unigol) o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r rhain yn nodi'n benodol y dylai'r cyfleusterau a'r amgylchedd fod yn addas ar gyfer plant anabl a phlant ag anghenion ychwanegol, er mwyn iddynt allu manteisio ar ddarpariaeth ochr yn ochr â'u cyfoedion a chael yr un cyfleoedd i hybu eu lles a'u datblygiad.

Cam 4. Cyngori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Mae'r penderfyniadau a wnaed gan y Gweinidog yn dilyn yr ymgynghoriad i'w gweld [yma](#).

Ystyriwyd erthyglau uchod y CCUHP wrth ddatblygu'r polisi hwn. Bydd y cynnydd yn y terfyn oedran uchaf ar gyfer cofrestru darpariaeth gofal plant yn sicrhau bod plant hyd at 12 oed bellach yn cael eu cynnwys yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r gofynion arolygu cysylltiedig.

Bydd y newid polisi hwn hefyd yn gyfle i ddylanwadu ar feysydd polisi eraill gan gynnwys yr agenda trechu tlodi. Bydd yn caniatáu i fwy o rieni yng Nghymru fanteisio ar y cymorthdaliadau treth a budd-dal sydd ar gael ar draws y DU ar gyfer talu'r gost o ddefnyddio gofal plant cofrestredig a chymeradwy. Bydd hyn yn fodd i leihau cost gofal plant, ac felly'n cyfrannu at y flaenoriaeth yn yr agenda trechu tlodi i alluogi mwy o rieni i fanteisio ar ofal plant fforddiadwy.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share

Ceir crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru [yma](#).

Ceir ymateb y Gweinidog i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ei phenderfyniadau, [yma](#).

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Rhagwelir y bydd angen i'r darn hwn o waith gael ei adolygu ar yr adegau canlynol:

1. Cyhoeddiad ar newidiadau i'r broses Cofrestru Gofal Plant - Medi 2015
2. Gweithdai ar gyfer darparwyr gyda AGGCC - Rhagfyr 2015
3. Cyhoeddi'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol diwygiedig - Mawrth 2016
4. Dyddiad dod i rym - 1 Ebrill 2016

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Na

Rhowch unrhyw fanylion:

Mae gofynion egwyddorion y CCUHP wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r polisi hwn a, lle'n bosibl, wedi'u hymgorffori yn y polisi. Mae goblygiadau o ran cost wrth ddiwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol i gymryd i ystyriaeth anghenion plant hŷn ac ymestyn y gofyniad i gofrestru gofal plant y tu hwnt i 8 oed, ond roedd y rhain yn rhan o'r penderfyniad polisi cychwynol ac nid o ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?

Oes

Os yn berthnasol: nodwch y dyddiad adolygu

Ebrill 2016

**Gweler y dudalen
nesaf am Restr Gryno
o erthyglau'r CCUHP**



Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Teitl / Darn o waith:	Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yw'n berthnasol)	SF/LG/3165/14 - Cyllid ar gyfer Chwarae Cymru
Enw'r Swyddog:	Robert Edwards
Adran:	Yr Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.
Dyddiad:	21 Hydref 2014
Llofnod:	

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir ichi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant ee ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.

Ar ôl ei gwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau Asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur trwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio CRIA@wales.gsi.gov.uk

Efallai y dymunwch groes-gyfeirio gydag Asesiadau Effaith eraill a gyflawnwyd.

NODER. Rhaid cyhoeddi pob Asesiad a wneir ar ddeddfwriaeth. Bydd pob Asesiad anneddfwriaethol yn cael ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob Asesiad a gwblheir.

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Diben y grant hwn yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi chwarae i blant yng Nghymru. Mae'n cefnogi'n uniongyrchol nodau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawlliau'r Plentyn (CCUHP).

Bwriad Grant Polisi Strategol Chwarae Cymru yw llenwi bylchau o ran cyngor ar ddatblygu polisi, a chyngor o ran rhoi polisi ar waith yn ymarferol, gan gynnwys materion megis datblygu'r gweithlu a gweithgareddau chwarae. Bydd Chwarae Cymru, sef y sefydliad a fydd yn elwa ar y grant, yn cefnogi Llywodraeth Cymru ar lefel strategol i barhau i arwain yr agenda chwarae i blant yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Hefyd, mae yna elfen yn y cynnig i ddarparu hyfforddiant achrededig ar gyfer gweithwyr chwarae. Dyma briif weithgareddau'r prosiect:

- a) darparu cymorth strategol i Awdurdodau Lleol a phartneriaid er mwyn gweithredu'r Ddyletswydd o ran Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae;
- b) datblygu canolfan ragoriaeth ryngwladol o ran chwarae;
- c) rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phob maes polisi sy'n gysylltiedig â chwarae; a,
- d) rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru o ran datblygu'r gweithlu chwarae.
- e) parhau i ddarparu hyfforddiant i'r bobl hynny sydd wedi'u cofrestru eisoes, neu sydd yn y broses o gofrestru, ar gyfer y cymhwyster Gwaith Chwarae: Egwyddorion Ar Waith (P3), sydd wedi cael ei ddatblygu a'i hwyluso gan Chwarae Cymru.

Bydd gweithgareddau Chwarae Cymru o dan y prosiect hwn hefyd yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei gwaith ar lefel ryngwladol yn nhermau polisi chwarae, lle y mae Cymru a Llywodraeth Cymru yn cael eu gweld fel arweinwyr yn rhyngwladol. Hefyd, bydd yn cefnogi agenda Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu gofal plant a chwarae, sydd wedi cael ei chyhoeddi yn ddiweddar er mwyn ymgynghori arni. Bydd hefyd yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddyletswyddau chwarae sydd wedi cael eu gosod ar awdurdodau lleol.

Y bwriad yw y bydd y trosolwg cyffredinol a'r dull cydweithredol y mae'r grant hwn yn eu hannog yn arwain at wasanaeth chwarae mwy cydlynol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan y bydd sefydliadau sy'n cydweithio yn symud o ganolbwyntio ar wasanaethau a phrosesau i ganolbwyntio ar gyflawni.

Cytunwyd i ddarparu cyllid am 18 mis.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Mae'r Grant Cyflawni dros Blant a Theuluoedd yn ymwneud yn benodol â chanlyniadau chwarae gwell ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, a datblygu gweithlu proffesiynol yn y maes. Grant tymor byr ydyw i raddau - bydd yn para am 18 mis ar gyfer yr elfen bolisi a 12 mis ar gyfer yr elfen hyfforddi.

Mae rheolwr cyfrif wedi cael ei benodi ar gyfer y prosiect ac mae cynllun gwaith wedi cael ei gytuno. Bydd cyfarfodydd rheoli cyfrifon rheolaidd yn asesu'r cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni, a'r effaith mae'r prosiect yn ei chael ar ddatblygu polisi yng Nghymru.

Ar ddiwedd y prosiect, bydd rhaid i Chwarae Cymru werthuso effaith wirioneddol y prosiect a'i ganlyniadau yn unol â'r fethodoleg y cytunwyd arni gyda'u rheolwyr cyfrifon. Bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i gyflwyno adroddiad gwerthuso i Lywodraeth Cymru o fewn 6 mis i ddiwedd y prosiect.

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Bwriad y grant yw cefnogi hawliau plant i chwarae. Mae'r grant yn canolbwyntio ar wireddu hawliau i chwarae ar gyfer llawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Mae ystod y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chwarae y gallai'r grant eu cynnwys yn un eang, gan gynnwys darparu gwasanaethau cyffredinol ar lefel uchel i Lywodraeth Cymru, darparu cyngor i gefnogi'r broses o feithrin gallu ymhlith sefydliadau sy'n darparu, neu gynrychioli buddiannau Cymru mewn digwyddiadau rhyngwladol.

Mae'r grant yn canolbwyntio ar gefnogi Erthyglau/themâu canlynol y CCUHP:

Erthygl 3. Bydd llwyddiant y rhaglen yn cael ei fonitro'n ofalus a'i werthuso, a phrif ffocws y broses werthuso fydd yr hyn sydd orau i blant a phobl ifanc. Mae mesur canlyniadau ac effaith yn rhan annatod o'r grant.

Erthygl 24. Mwy o fuddion iechyd drwy'r cyfleoedd chwarae sydd yn cael eu datblygu oherwydd polisïau a mentrau a luniwyd drwy gyfranogiad Chwarae Cymru.

Erthygl 29. Mae laith a Chwarae yn elfennau hanfodol mewn gweithgareddau'r is-adran. Gall y grant newydd ddarparu cymorth ychwanegol yn y maes hwn. Mae ymyrryd yn gynnar yn caniatáu i'r plentyn ddatblygu o ran ei bersonoliaeth a'i alluoedd ieithyddol, gan helpu'r plentyn i fod yn fwy cymdeithasol ac yn fwy parod i ymgysylltu'n agosach â'r system addysg.

Erthygl 31. Cefnogir gweithgareddau chwarae yn uniongyrchol drwy ddatblygu polisi a hyfforddi'r gweithlu.

Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Rhodddwyd cyngor i'r Gweinidog o dan y cyflwyniad:

SF/LG/3165/14 Cyllid ar gyfer Chwarae Cymru.

Mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo'r argymhelliad yn y cyflwyniad.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share

Gellir dod o hyd i ddogfennau sy'n gysylltiedig â datblygu'r grant ar iShare o dan y cyfeirnod: fA719706.

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Mae'r grant yn cychwyn ym mis Hydref 2014. Bydd y rhaglen yn cael ei hadolygu ar sail chwarterol fel rhan o weithgareddau rheoli contractau arferol

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Nac oes

Rhowch unrhyw fanylion:

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?

Nac oes

Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu

**Gweler y dudalen
nesaf am Restr Gryno
o erthyglau'r CCUHP**

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant: Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2015



Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Teitl / Darn o waith:	Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2015
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yn berthnasol)	SF/LG/0236/15
Enw'r Swyddog:	Beverley Morgan
Adran:	Llywodraeth Leol a Chymunedau
Dyddiad:	20 Mawrth 2015
Llofnod:	Beverley Morgan

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir i chi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant e.e. ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.

Ar ôl ei gwblhau dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau Asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur trwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio CRIA@wales.gsi.gov.uk

Efallai y dymunwch groes-gyfeirio gydag Asesiadau Effaith eraill a gyflawnwyd.

Noder. Rhaid cyhoeddi pob Asesiad a wneir yn ôl deddfwriaeth. Bydd pob Asesiad anneddfwriaethol yn cael ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob Asesiad a gwblheir.

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Datblygu Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant Cymru (2015)

Gosododd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant Cymru ac i bennu amcanion er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant a gwella canlyniadau ar gyfer teuluoedd incwm isel. Cyflawnodd Gweinidogion Cymru y ddyletswydd hon pan gyhoeddwyd Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2011. Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2011 yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2011 a 2014. O ganlyniad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant, a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus arni am gyfnod o 12 wythnos (6 Tachwedd 2014 tan 29 Ionawr 2015). Mae'r Strategaeth Tlodi Plant wedi cael ei diwygio yn sgil dros 80 o ymatebion ysgrifenedig. Cafodd fersiwn derfynol o'r Strategaeth Tlodi Plant (a chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad) ei chyhoeddi ar 27 Mawrth 2015.

Mae'r Strategaeth ddiwygiedig hon ar gyfer Tlodi Plant yn cadarnhau ein hymroddiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r data diweddaraf ar gyfer Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog yng Nghymru yn dangos bod 31% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol ar hyn o bryd yng Nghymru (ar ôl costau tai).

Nod y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant Cymru yw mynd i'r afael â thlodi plant drwy gyflawni pum amcan strategol. Cafodd tri o'r amcanion eu hamlinellu yn ein Strategaeth yn 2011. Mae'r amcanion hyn yn canolbwyntio ar leihau diweithdra, cynyddu sgiliau, a lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau iechyd, addysg a'r economi i blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu dau amcan strategol newydd ar gyfer trechu tlodi plant. sef:

- i. Defnyddio pob dull sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi ymhlith pobl mewn gwaith yng Nghymru.
- ii. Cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm yr aelwyd, drwy roi cyngor ar ddyledion a materion cyllid, camau i fynd i'r afael â "premiwm tlodi" (pan fo aelwydydd yn talu'n anghyfartal o uchel am nwyddau a gwasanaethau) a chamau i liniaru effeithiau diwygio lles.

Mae'r amcanion ychwanegol hyn yn rhoi cyfle i ni atgyfnerthu ein dull gweithredu o drechu tlodi plant. Mae sicrhau swyddi a thwf a chyfleoedd am waith llawn amser i aelwydydd incwm isel yn hanfodol, yn arbennig os ydym am leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith ac hefyd mynd i'r afael â'r lefelau cynyddol o dlodi mewn gwaith. Mae buddsoddi yn yr agenda cynhwysiant ariannol a darparu gwasanaethau â chymhorthdal i'r rheini sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig hefyd yn hanfodol. Mae lliniaru effeithiau tlodi wedi bod yn rhan ganolog o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ers amser. Mae'r ail amcan newydd (ynghylch cefnogi aelwydydd i gynyddu eu hincwm) yn adlewyrchu ac yn blaenoriaethu'r gwaith hwn.

Ni ddylid edrych ar y Strategaeth ddiwygiedig hon ar gyfer Tlodi Plant ar ei phen ei hun. Er bod y Strategaeth Tlodi Plant yn amlinellu dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi plant, mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater ac i sicrhau canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd drwy ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi.

Y gobaith yw y bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel yn cael budd o'r strategaeth hon. Bydd y strategaeth yn effeithio'n benodol ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Y nod yw mynd i'r afael â thlodi incwm - a sicrhau bod rhieni yn ennill digon i wneud yn siŵr nad yw eu plant yn byw mewn aelwyd incwm isel. Fel y mae'r pedwerydd amcan strategol yn ei adlewyrchu, rydym wedi ymrwymo i helpu teuluoedd i gynyddu eu hincwm ac i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (pan fo aelwydydd incwm isel yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau). Yr hyn sy'n bwysig yw bod y Strategaeth Tlodi Plant hefyd yn ceisio gwella canlyniadau o ran addysg, iechyd a'r economi i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

-
- Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar bolisiau a rhaglenni i blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cael eu cynnal ar draws Llywodraeth Cymru. Yn y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant, rydym wedi ymrwymo i ystyried effeithiau tlodi ochr yn ochr ag effeithiau cydraddoldeb ac anghenion y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig. Bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng yr agenda tlodi a'r agenda cydraddoldeb, ac yn helpu i sicrhau bod ffocws ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gydweithio i sicrhau bod tlodi plant yn cael ei ystyried wrth ddatblygu ein polisiau a'n rhaglenni, a hynny drwy gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.

-
- Gwyddom fod plant sy'n cael eu magu ac yn byw mewn aelwydydd incwm isel yn wynebu risg llawer yn fwy o gael canlyniadau gwaeth o ran iechyd, yn llai tebygol o gyrraedd cerrig milltir gwybyddol a datblygiadol yn y blynyddoedd cynnar, yn gwneud yn waeth o ran cyrhaeddiad addysgol, yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) rhwng 16 a 24 oed, ac yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith a byw mewn tlodi pan fyddant yn oedolion. Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn - drwy ddatblygu polisiau a rhaglenni ar draws holl Adrannau'r Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai tlodi plant yw'r prif rwystr rhag gwireddu a chynnal hawliau plant yng Nghymru. Oherwydd hyn, cyflawni ein Strategaeth Tlodi Plant yw'n blaenoriaeth mewn perthynas â'r agenda hawliau plant. Wrth gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP, byddwn yn ei gwneud yn glir bod gan bob portffolio ac adran rwymedigaethau a chyfrifoldebau wrth wireddu hawliau plant.

Mae'n bwysig cydnabod bod polisiau, rhaglenni a phrosiectau unigol sy'n cael eu datblygu gan wahanol Adrannau yn Llywodraeth Cymru yn sail i Strategaeth Tlodi Plant y Llywodraeth. Mae'n bosibl bod Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael eu datblygu ar gyfer y polisiau unigol hyn. Nid bwriad yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant yw tynnu sylw at holl effeithiau pob un o'r polisiau hyn (ond caiff y prif effeithiau eu cynnwys). Yn hytrach - y bwriad yw y bydd yn rhoi asesiad lefel uchel o effaith. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar sut y bydd mynd

i'r afael â thlodi plant yn gwneud cyfraniad pwysig wrth fwrw ymlaen â'r agenda hawliau plant yng Nghymru.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw Strategaeth Tlodi Plant 2015 yn sefyll ar ei phen ei hun. Mae cysylltiad uniongyrchol rhyngddi â Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2013, sy'n cynnwys ffocws cryf ar blant a phobl ifanc. Mae Cynllun Gweithredu 2013 yn cynnwys, yn arbennig, gerrig milltir a thargedau penodol ar gyfer gwella canlyniadau plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi., ac yn system ar gyfer gwireddu amcanion strategol Strategaeth Tlodi Plant 2015. Pan gyhoeddwyd Cynllun Gweithredu 2012, mynegwyd pryderon gan randdeiliaid bod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn symud oddi wrth tafod trechu tlodi plant yn benodol. Mae Strategaeth Tlodi Plant 2015 yn tynnu sylw yn benodol at y cysylltiad rhwng y Strategaeth Tlodi Plant a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a'r camau gweithredu a'r cerrig milltir a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn arbennig, rydym wedi datblygu cyfres o fodolau rhesymeg, sy'n dangos sut y bydd gwahanol bolisiau a rhaglenni yn cyfrannu at gyflawni pum amcan strategol y Strategaeth Tlodi Plant.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Mae'n bwysig cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru yr holl ddulliau sydd eu hangen i drechu tlodi incwm. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar bolisiau, fel newidiadau i drethi a budd-daliadau. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd diwygiadau lles a wnaed yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU yn cael effaith anghymesur ar aelwydydd sydd â phlant, a bydd yn cael effaith arbennig o negyddol ar yr aelwydydd hynny sy'n wynebu'r risg fwyaf o fyw mewn tlodi - gan gynnwys aelwydydd sydd â rhieni anabl a / neu blant anabl. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd tlodi plant yn parhau i godi yng Nghymru (ond yn arafach yng ngoleuni rhai effeithiau cadarnhaol disgwylidig a ddaw yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i liniaru'r effeithiau hyn, lle y bo'n bosibl, a lle y mae gennym bolisiau penodol i wneud hynny.

Mae gwella canlyniadau i deuluoedd incwm isel wrth wraidd y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant Cymru. Bwriad amcanion strategol y Strategaeth Tlodi Plant yw sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf bosibl i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Maent yn seiliedig ar yr hyn y mae'r dystiolaeth yn dangos sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar drechu tlodi yng Nghymru. Gan ystyried y dulliau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru eu defnyddio, mae'n bosibl na fydd rhai o fuddion arfaethedig y Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant yn cael eu gwireddu yn y dyfodol agos. Er enghraifft, bydd gwella deilliannau disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim yn rhan allweddol o drechu ac atal tlodi - ond mae'n bosibl mai yn y tymor hwy y gwelwn ni hyn. O ganlyniad, mae'r Strategaeth ddiwygiedig hefyd yn nodi pum blaenoriaeth bolisi allweddol lle rydym wedi ymrwymo i wneud mwy nawr i helpu aelwydydd incwm isel i gyflawni canlyniadau gwell. Dyma blaenoriaethau'r polisi: lleihau tlodi bwyd, cynyddu faint o ofal plant fforddiadwy sydd ar gael, mynd i'r afael â thlodi mewn gwaith, lliniaru effeithiau diwygio lles, a thai ac adfywio. Yn y Strategaeth Tlodi Plant, rydym yn ymrwymo i ddatblygu camau gweithredu ac ymrwymadau newydd ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau hyn. Lle y bo'n bosibl, caiff y rhain eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015).

Effeithiau cadarnhaol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Gwyddom fod byw mewn aelwyd heb waith yn gallu bod yn arbennig o niweidiol i blant a phobl ifanc. Mae llawer mwy o risg hefyd i aelwydydd heb waith fyw mewn tlodi parhaus. Un o amcanion strategol y Strategaeth Tlodi Plant yw lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, drwy helpu rhieni i gael swyddi a gwneud hyfforddiant. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant (a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Tlodi Plant) yn cyfeirio'n benodol at raglenni fel Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Esgyn - a fydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gyflawni'r canlyniad hwn. Bydd gwaith sy'n cael ei wneud gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth hefyd yn bwysig, gan ei bod yn datblygu polisiau a chymau gweithredu i gefnogi busnesau yng Nghymru, er mwyn galluogi a chefnogi'r sector preifat i greu rhagor o gyfleoedd i hyfforddi a gweithio.

Bydd ffynonellau o Gyllid Ewropeaidd yn chwarae rhan allweddol wrth helpu pobl i ddychwelyd at swyddi a hyfforddiant. Mae trechu tlodi yn thema trawsbynciol ar gyfer pob math o gyllid Ewropeaidd. Yn ogystal, mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cynnwys ffocws penodol ar gefnogi'r rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur - wrth ddatblygu prosiectau a rhaglenni i helpu pobl i gael gwaith. Mae gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop hefyd ffocws cryf ar sicrhau swyddi a hyfforddiant i bobl ifanc.

Ail amcan strategol y Strategaeth Tlodi Plant yw gwella sgiliau rhieni fel eu bod yn gallu cael swyddi sy'n talu'n dda. Gwyddom fod tlodi mewn gwaith yn broblem gynyddol yng Nghymru, ac mae tystiolaeth sy'n deillio o ymchwil a ariennir gan Sefydliad Joseph Rowntree yn awgrymu bod nawr mwy o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn gweithio, nag sydd ddim yn gweithio. Mae Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant yn cydnabod pa mor bwysig yw defnyddio'r holl bolisiau sydd ar gael, i sicrhau nad yw aelwydydd sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn symud o dlodi heb waith, i dlodi mewn gwaith. Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Sgiliau newydd i Gymru, ac ym mis Gorffennaf 2014 cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni cysylltiedig. Mae Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant Cymru yn cyfeirio at y datblygiad pwysig hwn - a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni ail amcan strategol y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant.

Mae trydydd amcan strategol y Strategaeth Tlodi Plant yn cydnabod y math o bolisiau sydd gan Lywodraeth Cymru, o ran gwella canlyniadau ym maes iechyd, addysg a'r economi ar gyfer y rheini sy'n byw mewn tlodi. Bydd ein rhaglenni allweddol sy'n mynd i'r afael â thlodi (Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) yn gwneud cyfraniad pwysig wrth gyflawni'r canlyniadau hyn. Gwyddom fod plant a phobl ifanc o gefndiroedd tlotach yn perfformio'n waeth yn yr ysgol a bod llawer mwy o risg iddynt dyfu i fod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn 16-24 oed. Mae'r Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant yn parhau ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol a sicrhau bod deilliannau disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn gwella ar raddfa gynt na disgyblion nad ydynt yn cael Prydau Ysgol am Ddim. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig yn nodi bod Ailysgrifennu'r Dyfodol, Grant Amddifadedd Disgyblion a Her Ysgolion Cymru yn ddatblygiadau allweddol a fydd yn ein galluogi ni i gyflawni'r amcan hollbwysig hwn. Mae lleihau anghydraddoldebau iechyd hefyd yn allweddol i'r agenda trechu tlodi. Drwy'r camau a nodir y Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi, mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn ceisio lleihau nifer y babanod sy'n cael eu geni â phwysau isel, gwella iechyd deintyddol a gwella disgwyliad oes iach y rheini sy'n byw yn ardaloedd fwyaf difreintiedig Cymru. Yn y Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant, mae'r adran ar gyflawni'r trydydd amcan strategol yn cyfeirio'n benodol at y blynyddoedd cynnar a rhianta, chwarae, lleihau anghydraddoldebau addysgol, lleihau anghydraddoldebau iechyd, tai ac adfywio, adnoddau naturiol a'r amgylchedd, y celfyddydau a diwylliant (a sut y mae'r meysydd polisi hyn yn cyfrannu at wella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau).

Mae'r pedwerydd amcan strategol yn cydnabod pa mor bwysig yw swyddi a thwf a'r rôl bwysig y mae economi gref yn ei chwarae, o ran cefnogi'r agenda tlodi ac helpu i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Mae'r amcan newydd hwn wedi cael ei gynnwys yn y Strategaeth Ddiwygiedig mewn ymateb uniongyrchol i'r ymgynghoriad diweddar. Bydd yn bwysig edrych ar y rôl y gall gwahanol sectorau ei chwarae wrth drechu tlodi, a chynnig cyfleoedd i bobl ifanc a rhieni o aelwydydd incwm isel. Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi bod yn edrych ar y dwristiaeth fel sector all ddarparu cyfleoedd ar gyfer swyddi cynaliadwy, llawn amser i bobl ifanc, a fydd yn bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi gwledig.

Mae'r pumed amcan strategol yn cydnabod pa mor bwysig yw cael polisiâu a rhaglenni sy'n helpu rhieni i gyflawni canlyniadau economaidd gwell, cynyddu incwm yr aelwyd a mynd i'r afael â'r premiwm tlodi, pan fo aelwydydd incwm isel yn dueddol o dalu mwy am nwyddau a gwasanaethau. Mae gan Lywodraeth Cymru hanes o fuddsoddi yn yr agenda cynhwysiant ariannol, gan ariannu amrywiaeth o wahanol raglenni - gan gynnwys Cyngor Da, Byw'n Well, sy'n rhoi cyngor i deuluoedd ag anabledau i sicrhau eu bod yn cael y budd-daliadau y mae hawl ganddynt eu cael.

Mae gofal plant yn hanfodol i gyflawni dau amcan strategol cyntaf y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant - ac mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod ein plant yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl wrth iddynt dyfu. I'r aelwydydd hynny sydd ag anghenion gofal plant, mae diffyg gofal plant yn aml yn cael ei nodi fel rhwystr allweddol, o ran cael swyddi a chyfleoedd i hyfforddi. Rydym yn cydnabod hyn yn ein Strategaeth Tlodi Plant a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, sy'n cynnwys ffocws cryf ar helpu pobl i gael gwaith ac i hyfforddi. Mae hefyd yn bwysig cydnabod rôl gofal plant mewn perthynas â'r cyfraniad pwysig y gall ei wneud i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Gwyddom fod tlodi mewn gwaith yn broblem gynyddol yng Nghymru, ac mae tystiolaeth sy'n deillio o ymchwil diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree yn dangos bod nawr mwy o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yn gweithio, na ddim yn gweithio. Mae tystiolaeth yn dangos i ni bod teuluoedd sy'n gweithio'n rhannol yn arbennig o agored i'r risg o fyw mewn tlodi mewn gwaith. Bydd helpu'r ddau riant i gael cyfleoedd llawn amser yn bwysig wrth fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith, ac mae gofal plant yn chwarae rhan allweddol. Mae annog ail berson mewn teulu i chwilio am waith (bydd y mwyafrif ohonynt yn fenywod) yn arbennig o bwysig, ac eto, mae gofal plant fforddiadwy, sydd ar gael yn hawdd, yn allweddol wrth gyflawni'r agenda hwn. Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn cynnwys ymrwymadau penodol ynghylch helpu i ddatblygu'r rhwydwaith gofal plant yng Nghymru.

Mae rôl rhieni hefyd yn hollbwysig wrth gyflawni'r agenda tlodi plant. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig yn cydnabod pa mor bwysig yw'r amgylchedd dysgu yn y cartref wrth helpu pobl i gyflawni canlyniadau gwell - a sut y gall rhieni wneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc. Rydym yn nodi pa mor bwysig yw sicrhau bod y ddau riant yn cael eu cefnogi i barhau i chwarae rhan gadarnhaol ym mywydau eu plant. Mae Erthygl 18 o'r CCUHP yn datgan: Mae'r ddau riant yn gyfrifol am fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i'w plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio. Felly, mae helpu'r ddau riant i fanteisio ar raglenni trechu tlodi yn bwysig.

Mesurau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol yn y Strategaeth Tlodi Plant

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u cynnwys yn fwriadol yn y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant, gan ei bod yn canolbwyntio ar geisio gwella canlyniadau rhai o'n teuluoedd mwyaf bregus a'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth yn pwysleisio mai cyflogaeth

yw'r llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi (er, nid ellir gwarantu hyn bob tro). Pan fo rhieni'n gweithio a bod eu plant yn ifanc iawn, neu pan fo rhieni'n gweithio y tu allan i oriau ysgol, gall hyn olygu treulio llai o amser gyda'u plant. Fel yr amlinellir uchod, mae Erthygl 18 yn cydnabod pa mor bwysig yw darparu gwasanaethau i gefnogi rhieni, yn enwedig pan fo'r ddau'n gweithio. Er y cydnabyddir pa mor bwysig yw bod rhieni yn gofalu am eu plant, mae tystiolaeth yn dangos bod yr effeithiau negyddol o fod mewn tlodi incwm yn arbennig o niweidiol yn y tymor hwy. Mae bod mewn cyflogaeth yn gwneud llawer i ddiogelu yn erbyn tlodi incwm cymharol. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod manteision ychwanegol i fod yn rhiant sy'n gweithio (er enghraifft, iechyd meddwl a lles gwell).

Sut byddwch yn gwybod bod eich darn o waith yn llwyddiant?

Y dangosydd allweddol a ddefnyddir i fesur tlodi plant yw edrych ar ganran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (a ddiffinnir fel 60% o'r incwm canolrifol) ar ôl costau tai. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Yn ogystal â'r prif fesur tlodi plant, mae'n bwysig monitro canlyniadau arfaethedig eraill y Strategaeth Tlodi Plant, yn arbennig ynghylch gwella canlyniadau o ran iechyd, addysg a'r economi i blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Fel y dangosir isod, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio set ychwanegol o ddangosyddion poblogaeth allweddol i asesu cynnydd mewn perthynas â threchu tlodi plant.

Ydych chi wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?

Mae Strategaeth Tlodi Plant 2015 yn amlinellu nifer o ddangosyddion poblogaeth allweddol ar gyfer mesur effaith y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant Cymru. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion ar nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith / sgiliau / anghydraddoldebau iechyd / cyrhaeddiad addysgol / nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) sy'n 16-24 oed. Dyma hefyd yw'r dangosyddion poblogaeth allweddol sy'n sail i'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yng Nghymru, sy'n cynnwys targedau penodol ar gyfer nifer o'r meysydd polisi hyn. Rhestrir y dangosyddion penodol isod:

- Canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai).
- Canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol lle mae o leiaf un oedolyn y gweithio (ar ôl costau tai).
- Canran y plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith.
- Canran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau.
- Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd â chymwysterau ar lefelau 2, 3 neu 4 neu'n uwch.

- Canran y plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel sy'n cyrraedd cerrig milltir cymdeithasol, ac o ran iechyd a datblygiad gwybyddol pan fyddant yn mynd i addysg ffurfiol.
- Canran y disgyblion 7 mlwydd oed sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliadwy ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Canran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg / Saesneg a Mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Canran y bobl ifanc 16 -18 mlwydd oed sy'n NEET.
- Canran y bobl ifanc 19 -24 mlwydd oed sy'n NEET.
- Canran y babanod (genedigaethau byw) sydd â phwysau geni isel (a ddiffinnir fel bod o dan 2,500 gram).

Yn y Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant, rydym wedi cysylltu'r dangosyddion hyn â phum amcan y Strategaeth Tlodi Plant (fel rhan o'r pum model rhesymeg). Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae'r modelau rhesymeg hyn hefyd yn nodi erthyglau penodol y CCUHP.

Byddwn yn adrodd ar y dangosyddion tlodi plant fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Caiff yr Adroddiad Blynyddol nesaf ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015.

Ydych chi wedi ystyried y canlyniadau ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor?

Ydyn. Mae tystiolaeth sy'n deillio o'n gwerthusiad diweddar o Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod ein dull gweithredu yma yng Nghymru yn debygol o wneud cyfraniad pwysig i drechu tlodi, ond mai yn y tymor hwy y byddwn yn debygol o weld hyn. Yn ngoleuni'r canfyddiadau o'r gwerthusiad, mae'r Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant felly'n cydnabod pa mor bwysig yw parhau i chwilio am gyfleoedd sy'n gwella amgylchiadau a chanlyniadau teuluoedd incwm isel *nawr*, yn ogystal â chyfleoedd sy'n gwneud yn siŵr ein bod atal plant sy'n cael eu magu mewn tlodi ar hyn o bryd rhag bod yn rhan o aelwyd incwm isel *yn y dyfodol*. Er enghraifft, mae Strategaeth Tlodi Plant 2015 yn cydnabod yn benodol bod tlodi bwyd ar gynnydd ymhlith aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Yn yr un modd, mae'r Strategaeth Ddiwygiedig yn cydnabod bod cael mynediad at wasanaethau cynghori, cynlluniau i wneud y mwyaf o'ch incwm (e.e. Cyngor Da, Byw'n Well), prosiectau sy'n helpu i wella llythrennedd ariannol a benthyciadau fforddiadwy (e.e. Undebau Credyd) a mentrau fel y Gronfa Cymorth Dewisol yn gallu gwneud cyfraniad pwysig i liniaru'r effeithiau a ddaw yn sgil byw mewn aelwydydd incwm isel.

Mae canfyddiadau eraill sy'n deillio o Werthusiad 2014 o Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru hefyd yn berthnasol. Er enghraifft, mae'r gwerthusiad yn dangos nad yw polisïau a rhaglenni

presennol o reidrwydd mor fawr ag sydd angen iddynt fod er mwyn sicrhau newidiadau ar y lefel briodol. Felly, mae'r Strategaeth Ddiwygiedig yn cydnabod pa mor bwysig yw chwilio am gyfleoedd eraill a fydd yn ein galluogi i sicrhau newid - a hynny i'r boblogaeth gyfan. Mae'r Strategaeth Ddiwygiedig yn amlinellu polisiâu posibl a allai wneud cyfraniad pwysig, fel buddsoddi mewn tai ac adfywio, lle gall defnyddio cynlluniau Budd Cymunedol ddarparu cyfleoedd hollbwysig o ran swyddi a hyfforddiant i'r rheini sydd mwyaf eu hangen.

Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod Strategaeth Tlodi Plant 2015 hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o beth sydd ei angen er mwyn dileu tlodi plant. Mae'n cynnwys, yn benodol, ymrwymiad i wneud gwaith dadansoddi pellach ar y canlyniadau y mae'r strategaeth yn bwriadu eu sicrhau a defnyddio'r asesiad hwn i ddatblygu canlyniadau a cherrig milltir dros dro er mwyn trechu tlodi plant. Bydd y dadansoddiad hwn yn sail i ddull strategol Llywodraeth Cymru o drechu tlodi plant a gwaith yn y dyfodol i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn aelwydydd incwm isel, sy'n cael ei wneud gan wahanol Adrannau. Bydd asesu a modelu tueddiadau allweddol yn ein helpu i ddeall beth sydd angen ei gyflawni ac erbyn pryd, os ydym am ddileu tlodi plant. Yn benodol, byddwn yn defnyddio'r gwaith dadansoddi hwn i bennu beth y mae hyn yn ei olygu o ran cael llai o blant mewn aelwydydd heb waith, cefnogi pobl i gael swyddi, cefnogi ail berson mewn teulu i chwilio am waith, sicrhau bod llai o blant ifanc yn NEET, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd ac addysg a chynyddu nifer yr oedolion sydd â sgiliau sylfaenol.

Oes angen i chi gyd-drafod â phlant a phobl ifanc a/neu rhanddeiliaid i geisio eu barn gan ddefnyddio dulliau ymgynghori neu gyfranogi?

Oes. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymroddedig i gymryd camau cydweithredol i drechu tlodi plant, ac yn cydnabod y rôl allweddol sydd i'w chwarae gan Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill a enwir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Yn ogystal â gofynion y Mesur, gwyddom y gall y trydydd sector a'r sector preifat hefyd wneud cyfraniad sylweddol i leihau tlodi plant, gan gynnwys cynnig swyddi a lleoliadau i wirfoddolwyr.

Mae'n arbennig o bwysig bod Awdurdodau Lleol a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystyried Strategaeth Tlodi Plant 2015 wrth adolygu eu Strategaethau Tlodi Plant a'u hamcanion eu hunain. Bydd y dull hwn yn adeiladu ar y sefyllfa unigryw yng Nghymru, lle mae Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithio i gyflawni'r un amcanion er mwyn dileu tlodi plant.

Mae ymgynghori, gwrandao a gweithredu ar farn plant a phobl ifanc yn hanfodol i Strategaeth Tlodi Plant 2015, ac mae'n cynnwys ymrwymiad i gynnwys pobl ifanc wrth barhau i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae swyddogion yn yr Is-adran Trechu Tlodi yn cyd-drafod â Plant yng Nghymru, sydd wedi derbyn cyllid o dan y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd, i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan ym mhrosesau'r Llywodraeth o wneud penderfyniadau. Bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y camau a gymerwn yn sgil y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn seiliedig ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc eu hunain yn dweud wrthym.

Bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn parhau i gwrdd â'r Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant a Grŵp Cynghori Allanol Llywodraeth Cymru ar Drechu Tlodi i sicrhau eu bod yn rhan o'r trafodaethau i ddatblygu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o drechu tlodi.

Oes angen i chi baratoi fersiynau addas i blant o gynigion/ymgynghoriadau?

Cyhoeddwyd fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc ym mis Tachwedd 2015. Cafodd ei groesawu gan blant a phobl ifanc, yn ogystal â'r sefydliadau hynny sy'n eu cefnogi. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi fersiwn o Strategaeth Ddiwygiedig 2015 ar gyfer plant a phobl ifanc, ar wefan Llywodraeth Cymru, ar 27 Mawrth 2015.

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Pa rai o erthyglau'r CCUHP sydd **fwyaf** perthnasol i'r darn o waith?

Mae gwella canlyniadau plant a phobl ifanc o gefndiroedd incwm isel yn ganolog i gyflawni ym maes hawliau plant yng Nghymru. Mae **Erthygl 26** o'r CCUHP (Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant mewn angen, drwy eu gwarcheidwaid neu'n uniongyrchol) ac **Erthygl 27** (Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol) yn canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â thlodi incwm ac amddifadedd materol. Mae'r hawl i bob plentyn gael safon bywyd sy'n ddigon da ar gyfer datblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn elfen allweddol. Dylai Llywodraethau ddarparu cymorth materol a rhaglenni cymorth, yn arbennig o ran bwyd, dillad a thai.

Mae erthyglau perthnasol eraill y CCUHP yn cynnwys:

Erthygl 2: Mae'r Confensiwn yn gymwys i unrhyw un, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Erthygl 3 (Er budd y plentyn): Mae'n rhaid mai budd y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Dylai pob oedolyn wneud yr hyn sydd orau i blant. Pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau, dylent feddwl am sut y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar blant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheini sy'n llunio cyllidebau, polisïau a chyfreithiau.

Erthygl 6 (Yr hawl i fyw): Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu fod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Erthygl 12 (Parchu barn y plentyn): Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 18 (Cyfrifoldebau rhieni; cymorth gan y wladwriaeth): Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros godi eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Rhaid i lywodraethau barchu mai cyfrifoldeb y rhieni yw rhoi arweiniad priodol i'w plant - nid yw'r Confensiwn yn cymryd cyfrifoldeb am blant oddi wrth eu rhieni ac yn rhoi mwy o awdurdod i lywodraethau. Mae'n rhoi cyfrifoldeb ar lywodraethau i helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio y tu allan i'r cartref.

Erthygl 24 (Yr hawl i ofal iechyd): Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glan, bwyd maethlon ac amgylchedd glan er mwyn eu cadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 28 (Yr hawl i addysg): Mae gan bob plentyn yr hawl i gael addysg gynradd. Dylai addysg fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni'r hawl hwn. Mae'r Confensiwn yn credu bod addysg yn werthfawr iawn. Dylai pobl ifanc gael eu hannog i gyrraedd y lefel uchaf o addysg o fewn eu gallu.

Erthygl 29 (Nodau addysg): Dylai addysg ddatblygu personoliaeth, talent a gallu pob plentyn yn gyflawn.

Erthygl 31 (Hamdden, chwarae a diwylliant): Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau diwylliant, celfyddydol a gweithgareddau hamdden eraill.

Mae'n bwysig cydnabod a thynnu sylw at y cysylltiadau rhwng erthyglau unigol CCUHP a sut y mae'r rhain yn ymwneud yn benodol â'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r Strategaeth Tlodi Plant. Yn y Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant, rydym wedi datblygu cyfres o "fodelau rhesymeg", sy'n dangos sut y bydd gwahanol bolisiâu a rhaglenni yn cyfrannu at gyflawni pum amcan allweddol y strategaeth. Mae erthyglau'r CCUHP sydd fwyaf perthnasol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi cael eu nodi yn y modelau rhesymeg eu hunain.

Erthygl 36 (gweithgareddau sy'n amharu ar ddatblygiad): Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

Sut ydych chi'n gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar eu hawliau?

Mae'n bwysig cydnabod bod tlodi yn rhwystr sylfaenol sy'n atal plant a phobl ifanc rhag manteisio ar eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell. Gwyddom fod plant sy'n cael eu magu ac yn byw mewn aelwydydd incwm isel yn wynebu risg llawer yn fwy o gael canlyniadau gwaeth o ran iechyd, yn llai tebygol o gyrraedd cerrig milltir gwybyddol a datblygiadol yn y blynyddoedd cynnar, yn gwneud yn waeth o ran cyrhaeddiad addysgol, yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) rhwng 16 a 24 oed, ac yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith a byw mewn tlodi pan fyddant yn oedolion.

Mae'r cyswllt uniongyrchol rhwng trechu tlodi plant a'r CCUHP wedi'u amlinellu yng Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi. Mae'r Cynllun Gweithredu yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn ceisio trechu tlodi plant gan ddefnyddio CCUHP fel sylfaen, ac yn cydnabod bod trechu tlodi yn ymwneud â gwella lles plant cymaint ag y mae'n ymwneud â mynd i'r afael â thlodi incwm. Mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant yn cysylltu lles plant â lles rhieni a theuluoedd ac yn rhoi cymorth i deuluoedd wrth wraidd polisiâu i drechu tlodi plant. Er bod y Strategaeth hon yn cydnabod bod tlodi plant yn adlewyrchiad uniongyrchol o dlodi eu rhieni (ac felly ceir pwyslais ar gynyddu incwm yr aelwyd a chael swyddi), rydym hefyd yn deall ac yn cydnabod bod gan y plentyn hawliau ac anghenion penodol sy'n bodoli nawr. Er bod yr hawliau hyn yn cyfrannu at wella sefyllfa eu teuluoedd a'u cymunedau, gallent ymestyn y tu hwnt i'r teulu.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn rhoi cyfle i ni gymryd camau a gwneud ymrwymadau i fynd i'r afael â materion newydd sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Ar yr un pryd, bydd sicrhau ein bod yn rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth inni ddatblygu polisiâu a rhaglenni i gefnogi plant a phobl ifanc yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant a gwella canlyniadau. Mae gofyn i adrannau Llywodraeth Cymru gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn gyfle delfrydol i gysylltu agenda hawliau plant ac agenda'r blynyddoedd cynnar. Byddwn yn parhau i gydweithio i sicrhau bod tlodi plant yn cael ei ystyried wrth ddatblygu ein polisiâu a'n rhaglenni, a

hynny drwy gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai tlodi plant yw'r prif rwystr rhag gwireddu a chynnal hawliau plant yng Nghymru. Oherwydd hyn, cyflawni ein Strategaeth Tlodi Plant yw'n blaenoriaeth mewn perthynas â'r agenda hawliau plant. Wrth gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i CCUHP, byddwn yn ei gwneud yn glir bod gan bob portffolio ac adran rwymedigaethau a chyfrifoldebau wrth wireddu hawliau plant.

Pa agweddau o fywydau plant y bydd y cynnig yn effeithio arnynt?

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn ceisio sicrhau nifer o effeithiau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) sy'n byw mewn tlodi. Yn bwysicaf oll, mae'r strategaeth yn ceisio lleihau nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi incwm - i sicrhau bod gan deuluoedd ddigon o arian i gael safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Mae'r Strategaeth Ddiwygiedig hefyd yn seiliedig a nifer o strategaethau presennol eraill, ac mae'n cyfan yn chwarae eu rhan i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn nodi dull gweithredu a champau allweddol Llywodraeth Cymru a fydd yn cyfrannu at wella bywydau plant iau (0-7 mlwydd oed) yng Nghymru. Yn yr un modd, Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb yw dogfen strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd ac mae'n canolbwyntio'n fawr ar wella canlyniadau iechyd plant a phobl ifanc. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth newydd – Ailysgrifennu'r Dyfodol – sy'n ceisio lleihau'r anghydraddoldebau o ran deilliannau addysgol sy'n bodoli ar hyn o bryd ymhlith plant a phobl ifanc. Mae hyn yn canolbwyntio'n benodol ar rôl ysgolion a phartneriaid allweddol eraill i wella deilliannau addysg disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim, a hynny ar raddfa gynt na disgyblion nad ydynt yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim.

Beth yw'r prif faterion y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ganolbwyntio arnynt? A yw'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP?

Mae trydydd amcan strategol y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant yn ceisio gwella canlyniadau o ran addysg, iechyd a'r economi i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi ar hyn o bryd yn tyfu i fod yn dlawd pan fyddant yn oedolion. Mae cyrhaeddiad addysgol yn hollbwysig wrth gyflawni'r agenda hwn. Gwyddom fod gwella deilliannau addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn golygu eu bod llawer yn fwy tebygol o gael cyfleoedd i hyfforddi a chael swyddi wrth iddynt dyfu'n oedolion. Mae bod mewn cyflogaeth yn hanfodol i drechu tlodi, a hynny yn y tymor byr a'r tymor hir.

Os yw Llywodraeth Cymru yn gallu cyflawni yn erbyn y tri amcan strategol (lleihau diweithdra, cynyddu sgiliau a lleihau anghydraddoldebau) bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i drechu tlodi. Mae parhau i fonitro polisiâu a rhaglenni unigol sy'n sail i'r Strategaeth Tlodi Plant (a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig ar gyfer Trechu Tlodi) yn hanfodol. Bydd swyddogion sy'n gweithio ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn gwneud hyn drwy Fwrdd Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.

Mae'r Bwrdd Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi) yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi - a'r polisiâu a'r rhaglenni sy'n cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn ar gyfer y boblogaeth gyfan. Un o ddyletswyddau allweddol y Bwrdd Gweithredu yw dal gwahanol adrannau i gyfrif am y camau gweithredu sy'n sail i'r Cynllun. Mae adrannau'n gyfrifol am adrodd ar gynnydd - ac mae mesurau perfformiad yn eu lle i fonitro p'un a yw plant a theuluoedd ar eu hennill o ganlyniad i'r cymorth a'r

ymyrraeth y maen nhw wedi'i dderbyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adrodd ar berfformiad polisiâu a rhaglenni unigol fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi, a sicrhau felly bod ffocws penodol (a pharhaus) ar sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi.

Cam 4. Cefnogi'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Bu swyddogion yn yr Is-adran Trechu Tlodi yn amlinellu cynigion ynghylch datblygu'r Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant mewn dogfen a gyflwynwyd i'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi blaenorol a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi presennol.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i'r dull gweithredu cyffredinol ar ddiwedd mis Gorffennaf 2014. Ar ôl ad-drefnu'r Cabinet, cytunodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ym mis Hydref i gyhoeddi'r Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant ar gyfer cyfnod ymgynghori o 12 wythnos ar 6 Tachwedd 2014. Ar 9 Mawrth, cytunodd y Cabinet i gyhoeddi Strategaeth derfynol 2015 ar 27 Mawrth.

Yn y dogfennau a gyflwynwyd i'r Gweinidogion, mae swyddogion wedi dangos sut y mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn gysylltiedig ag erthyglau perthnasol y CCUHP ac mae'n rhoi pwyslais sylweddol ar wella canlyniadau plant a theuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel.

Mae trechu tlodi plant yn fater trawsbynciol (ac yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru). Bydd swyddogion yn parhau i ddiwygio ac addasu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar y Strategaeth Tlodi Plant i adlewyrchu ymrwymadau newydd sy'n cael eu gwneud (er enghraifft, fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi) a thystiolaeth newydd ar dlodi plant yng Nghymru.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share

Dylid cadw tystiolaeth sy'n cadarnhau:

- Sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dadansoddiad a wnaed (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dewisiadau a ddatblygwyd ac a archwiliwyd (**Camau 1- 3 uchod**)
- Sut mae'r canfyddiadau / canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi? (**Cam 4 uchod**)
- 'Dweud y stori' o sut y gwnaed yr asesiad a'r canlyniadau (**Cam 4 uchod**)

Wrth ddatblygu'r Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant Cymru, mae swyddogion yn yr Is-adran Trechu Tlodi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i roi sylw dyledus i Erthyglau CCUHP wrth ddatblygu polisi newydd. Mae Erthyglau 26 a 27 o'r CCUHP yn canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â thlodi incwm ac amddifadedd materol.

Fel y dangosir yng Nghamau 1-3, bydd y Strategaeth Tlodi Plant yn gwneud cyfraniad pwysig at nifer o erthyglau'r CCUHP. Yn benodol, mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn ceisio mynd i'r afael â thlodi incwm a lleihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Mae hyn yn gysylltiedig ag Erthygl 26 ac Erthygl 27 o'r CCUHP.

Mae amcanion strategol y Strategaeth Tlodi Plant wedi cael eu datblygu i sicrhau eu bod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar gyfer teuluoedd incwm isel - ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio popeth o fewn ei gallu i drechu tlodi a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Mae'r amcanion strategol hyn yn seiliedig ar ble y mae'r dystiolaeth yn dweud wrthym y gallwn gael yr effaith fwyaf o ran trechu tlodi incwm a gwella canlyniadau.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn seiliedig ar y dystiolaeth am dlodi plant yng Nghymru.

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel y bo angen

Wrth adolygu'r darn o waith, ystyriwch unrhyw fonitro, gwerthuso neu gasglu data sydd wedi cael ei wneud:

- A yw eich darn o waith wedi cael yr effaith a fwriadwyd fel y nodir yng Ngham 2?
- Ydych chi wedi cyd-drafod â rhanddeiliaid i drafod sut mae'r polisi neu arfer yn gweithio?
- Os nad ydych, oes angen newidiadau.
- Nodwch lle gellir gwneud gwelliannau i leihau unrhyw effaith negyddol.
- Nodwch unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo hawliau plant, gan gadw mewn cof unrhyw adnoddau ychwanegol a all fod ar gael ar hyn o bryd.

Bu swyddogion yr yr Is-adran Trechu Tlodi yn ail-edrych ar yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cafodd y Strategaeth Tlodi Plant a'r Asesiad eu diwygio yn sgil ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r penderfyniad i ddatblygu amcanion strategol newydd ar gyfer trechu tlodi plant yng Nghymru. Byddwn yn parhau i atgyfnerthu ac adeiladu ar yr Asesiad o'r Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant wrth i ni ddatblygu camau ac ymrwymadau newydd fel rhan o'r Adroddiad Blyneddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (gweler isod).


Cyllidebau

<p>O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?</p> <p>Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.</p>	<p>Nac oes</p>
<p>Rhowch unrhyw fanylion:</p> <p>Pan cafodd y Strategaeth Ddiwygiedig ar gyfer Tlodi Plant ei chyflwyno i'r Gweinidogion, cydnabuwyd y byddai gwaith dadansoddi pellach yn cael ei wneud ar y cyllidebau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Tlodi Plant. Yn y Strategaeth Ddiwygiedig, ceir hefyd ymrwymiad i ddatblygu camau ac ymrwymadau newydd ar gyfer pum blaenoriaeth newydd. Os yw'n bosibl, amlinellir y camau a'r ymrwymadau newydd hyn yn yr Adroddiad Blyneddol ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu</p>	

Tlodi. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chynnwys yn yr Asesiad hwn am gyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer camau, mentrau, polisiâu neu raglenni newydd, wrth iddynt gael eu datblygu. Rydym wedi ymrwymo i adolygu'r Asesiad ar ôl i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2015.

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?	Oes
Os yw'n berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu	Gorffennaf 2015, ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi.



**Gweler y dudalen
nesaf am Restr Gryno
o erthyglau'r CCUHP**

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant: Y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Theluoedd



Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Teitl / Darn o waith:	Y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Theluoedd
Rhif yr SF / LF cysylltiedig (os yw'n berthnasol)	SF-JC0456-14 Grant newydd yn lle'r Grant Sefydliadau Plant a Theluoedd: y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Theluoedd
Enw'r Swyddog:	Robert Edwards
Adran:	Yr Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theluoedd
Dyddiad:	24 Mawrth 2014
Llofnod:	

Dylech gwblhau'r Asesiad hwn a'i gadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Mae'n bosibl y byddwch yn cael cais i ddarparu'r ddogfen hon yn nes ymlaen i ddangos eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi'r sylw dyledus i hawliau plant e.e. ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gwaith monitro neu adroddiadau a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, dylech anfon copi ohono at y Tîm Gweithredu Mesurau at ddibenion monitro, gan ddefnyddio'r blwch post CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn siŵr a oes angen cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ai peidio, dylent geisio cyngor y Tîm Gweithredu Mesurau drwy anfon unrhyw gwestiynau i'n blwch post CRIA@wales.gsi.gov.uk

Mae'n bosibl y byddwch am groesgyfeirio at Asesiadau Effaith eraill a fydd wedi'u cyflwyno.

DS Rhaid cyhoeddi pob Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth. Bydd pob Asesiad o'r fath nad yw'n ymwneud â deddfwriaeth yn cael ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru a rhaid trefnu iddo fod ar gael os gwneir cais i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, anogir y Gweinidogion i gyhoeddi pob Asesiad o'r fath.

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r gwaith a'i amcan(ion)?

Bwriedir cyflwyno grant newydd o'r enw'r Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Theuluoedd (CFDG) yn lle'r cynllun grant presennol, sef y Grant Sefydliadau Plant a Theuluoedd (CFOG).

Aed ati yn 2011 i gynnal adolygiad annibynnol o'r meysydd Cymorth i Deuluoedd, a Gofal Plant a Chwarae, a oedd yn rhan o'r Grant Sefydliadau Plant a Theuluoedd. Yn ôl yr adolygiad hwnnw, roedd gormod o sefydliadau'n cael eu hariannu drwy'r grant. Roedd yr adroddiad hefyd o'r farn bod y trefniadau monitro a oedd gan Lywodraeth Cymru yn wan, ac nad oedd y berthynas rhwng yr amryfal gyrrff yn un ddigon dynamig. Ar ôl ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid, penderfynwyd newid i fodel cyllido a fyddai'n canolbwyntio mwy ar gyflawni.

Diben y grant, a fydd yn cael ei gynnig i sefydliadau yn y Trydydd Sector, fydd helpu i sicrhau canlyniadau mewn pum maes blaenoriaeth penodol sy'n ategu ac yn ychwanegu gwerth at yr agenda sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cymorth i Deuluoedd. Bydd y grant yn cefnogi teuluoedd mewn ffyrdd ymarferol a mesuradwy, ac yn rhoi pwyslais mawr ar ganlyniadau a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar blant drwy hoelio sylw ar gyfranogi ac ymgysylltu, ac ar ofal plant, polisi a chwarae.

Bydd y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Theuluoedd (CFDG) yn dechrau ar 1 Hydref 2014 a bydd ar gael am gyfnod o 36 mis. Bydd swm o £2.8 miliwn ar gael ar gyfer pob cyfnod o 12 mis. Bwriedir dyfarnu 5 grant er mwyn mynd i'r afael â phob un o'r 5 blaenoriaeth a ganlyn:

- Bydd teuluoedd leded Cymru yn gallu cael gafael ar **ofal plant** fforddiadwy a safonol;
- Bydd mwy o gyfleoedd i blant yng Nghymru **chwarae**;
- Mae teuluoedd yn cael **gwybod** am gymorth ariannol a chymorth ymarferol arall sy'n eu cryfhau;
- Mae teuluoedd 'nas clywir yn aml' yn **ymgysylltu** â'r rhaglenni, y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt, ac yn manteisio arnynt;
- Mae cymorth ar gael i ddatblygu polisiau a gwaith strategol mewn perthynas â Phlant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ac mae mwy o gyfleoedd yn y system i blant a phobl ifanc fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac i **leisio barn**.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

Hanfod y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yw sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Y nod yw gweithredu ar lawr gwlad fel y bo pobl yn gweld ac yn teimlo'r canlyniadau hynny. Mae'r Gweinidog wedi datgan yn glir bod yn rhaid i'r holl weithgarwch o dan y grant hwn fedru dangos ei fod yn gwneud gwahaniaeth pendant i fywydau'r bobl hynny y'i bwriedir ar eu cyfer.

Bydd pob cais am gyllid yn cynnwys adran a fydd yn amlinellu'r trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer y prosiect. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell mai dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau y dylid ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith hwnnw. Bydd disgwyl i ymgeiswyr amlinellu sut y maent yn bwriadu monitro hynt y gwaith ar y prosiect ac ymateb i broblemau annisgwyl. Disgwylir iddynt hefyd fanylu ar gerrig milltir ac amserlenni a lefelau goddefiant y prosiect. Bydd gofyn iddynt gynnwys manylion am arolygon a gweithgareddau ymchwil arfaethedig a nodi a fyddant yn cael eu cynnal gan aseswyr annibynnol ai peidio.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gyflwyno ffurflen hawlio grant yn chwarterol, a bydd yn rhaid iddynt gyflwyno adroddiad ar y ffurflen honno am y cynnydd a fydd wedi'i wneud ar yr allbynnau y cytunwyd arnynt. Bydd gofyn cyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol hefyd.

Pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau, bydd gofyn i ymgeiswyr werthuso effaith a chanlyniadau eu prosiect, gan wneud hynny yn unol â'r fethodoleg a amlinellir yn y cais. Bydd yn ofynnol iddynt hefyd anfon adroddiad gwerthuso at Lywodraeth Cymru ymhen 6 mis i ddiwedd y prosiect.

Mae'r grant hwn yn annog sefydliadau i gydweithio ac i gydweithredu er mwyn cynnig gwasanaeth mwy cydlynol i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r pwyslais bellach ar gyflawni yn hytrach nag ar wasanaethau ac ar brosesau.

Cam 3. Sut mae eich gwaith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Bwriedir i bob un o feysydd blaenoriaeth y grant hwn hyrwyddo hawliau plant. Mae'r grant yn canolbwyntio'n llwyr ar wireddu hawliau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd modd defnyddio'r grant hwn ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau. Gallai ymgeiswyr llwyddiannus gynnwys prosiectau a fydd yn amrywio o ddarparu gwasanaethau cyffredinol ar lefel uchel ar gyfer y sector cyfan, i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i blant a'u teuluoedd.

Mae'r Grant yn canolbwyntio ar gefnogi'r Erthyglau/themâu a ganlyn yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

Erthygl 3. Bydd llwyddiant y rhaglen yn cael ei fonitro a'i werthuso'n ofalus, gan hoelio sylw ar yr hyn sydd orau i blant a phobl ifanc. Mae mesur canlyniadau ac effaith yn rhan annatod o'r rhaglen grant.

Erthygl 5. Darparu gweithgareddau rhianta fel y bo rhieni'n dysgu sut i fagu'u plant mewn amgylchedd strwythuredig a chefnogol.

Erthygl 6. Gallai'r rhaglen gefnogi gweithgareddau Ymwelwyr Iechyd drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Bydd gweithgareddau o'r fath yn golygu bod plant yn fwy tebygol o oroesi, a hynny oherwydd y bydd unrhyw risgiau yn y cartref yn cael eu nodi a chymorth yn cael ei roi er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn datblygu'n iach.

Erthygl 12. Darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer plant er mwyn gwneud yn siŵr bod plant yn cael

lleisio barn.

Erthygl 18. Rhaglenni cymorth sy'n helpu'r ddau riant i gyfrannu at ddatblygiad eu plant, pa un a yw'r rhieni gyda'i gilydd neu'n byw ar wahân.

Erthygl 24. Mwy o ofal iechyd drwy gefnogi'r lefel uwch o wasanaeth a gynigir gan ymwelwyr iechyd drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg.

Erthygl 26. Trechu tlodi yw prif nod y rhaglen, a hynny drwy ymyrryd yn gynnar pryd bynnag y bo modd. Bydd swm o £8.4 miliwn ar gael dros gyfnod o 36 mis er mwyn cefnogi amcanion y grant.

Erthygl 29. Mae iaith a chwarae yn elfennau hanfodol o weithgareddau'r is-adran. Gall y grant newydd gynnig rhagor o gymorth yn hynny o beth. Mae ymyriadau cynnar yn caniatáu i'r plentyn ddatblygu ei bersonoliaeth a'i allu ieithyddol, gan olygu ei fod yn fwy parod i gymdeithasu ac i ymroi i'r system addysg.

Erthygl 31. Mae gweithgareddau chwarae yn gymwys i gael cyllid o dan y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

Holl ddiben maes blaenoriaeth 5 yw denu cynigion a fydd yn rhoi mwy o gyfle i blant a phobl ifanc yng Nghymru leisio barn (Erthygl 12). Nodwyd y gweithgareddau cynwys a ganlyn yn y canllawiau ar lenwi'r ffurflen gais:

- galluogi plant a phobl ifanc i gael llais yng ngwaith a datblygiadau Llywodraeth Cymru;
- bod y farn a leisir gan blant a phobl ifanc mewn fforymau lleol yn cael ei chlywed yn genedlaethol gan Weinidogion
- sicrhau bod plant a phobl ifanc, a'r rheini sy'n gweithio gyda nhw, yn ymwybodol o hawl plant i gyfranogi fel y nodir yn y CCUHP;
- hyrwyddo cyfranogiad ystyrion ac effeithiol drwy rannu arferion da

Bydd modd defnyddio'r grant hwn ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau. Gallai ymgeiswyr llwyddiannus gynnwys prosiectau a fydd yn amrywio o ddarparu gwasanaethau cyffredinol ar lefel uchel ar gyfer y sector cyfan, i ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol i blant a'u teuluoedd.

Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Rhoddwyd cyngor i'r Gweinidog yn y ffolder gyflwyno:

SF-JC0456-14 Grant newydd yn lle'r Grant Sefydliadau Plant a Theuluoedd – y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Theuluoedd.

Mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo'r argymhelliad yn y cyflwyniad.

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share

Mae dogfennau sy'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r grant i'w gweld ar iShare o dan gyfeirnod: zA745098.

Cam 6. Adolygu'r gwaith yn ôl yr angen

Bydd y grant yn dechrau ym mis Hydref 2014 ar ôl i'r panel asesu gyfarfod ym mis Mehefin 2014. Bydd y rhaglen yn cael ei hadolygu'n flynyddol a bydd hynt y gwaith ar brosiectau'n cael ei adolygu bob chwarter. Bydd pob ymgeisydd yn cael rheolwr cyfrif a fydd yn monitro cynnydd.

Cyllidebau

A oes unrhyw effaith ar gyllidebau o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant,?

Os gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys dyraniadau ychwanegol, mae'n bwysig bod hynny'n cael ei asesu, a bod tystiolaeth i'r perwyl hwnnw'n cael ei chyflwyno yn ystod y broses o lunio'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Oes

Rhowch unrhyw fanylion:


Disgwylir i Gyllidebau Trechu Tlodi gynyddu yn ystod y 3 blynedd y bydd y grant newydd ar gael. Er hynny, bydd y blaenoriaethau yn y prif raglenni Cyllido yn cael eu haddasu i ryw raddau wrth i flaenoriaethau newid. Bydd y gyllideb ar gyfer y Grant Cyflawni ar gyfer Plant a Theuluoedd yn debyg i'r gyllideb ar gyfer yr hen Grant Sefydliadau Plant a Theuluoedd. Bydd cyllideb o ryw £2.8 miliwn ar gael i gefnogi'r prosiectau a gaiff eu hariannu.

Monitro ac Adolygu

A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?

Nac oes

Os yw hynny'n berthnasol: nodwch y dyddiad adolygu



Gweler y dudalen nesaf
am Restr Gryno o
erthyglau'r CCUHP

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant: Magu Plant. Rhowch amser iddo' – ymgyrch rhianta cadarnhaol



Templed ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Teitl / Darn o waith:	'Magu Plant. Rhowch amser iddo' – ymgyrch rhianta cadarnhaol
Rhif SF / LF cysylltiedig (os yw'n berthnasol)	SF/LG/1589/15
Enw'r Swyddog:	Lucy Akhtar
Adran:	Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Dyddiad:	18 Gorffennaf 2015
Llofnod:	

Byddwch cystal â chwblhau'r ffurflen hon a'i chadw ar gyfer eich cofnodion ar iShare. Efallai y gofynnir ichi ddangos y ddogfen hon yn ddiweddarach i brofi eich bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o roi sylw dyledus i hawliau plant ee ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddibenion monitro, neu fel gwybodaeth i'w hadrodd i'r Cynulliad.

Ar ôl ei gwblhau, dylech hefyd anfon copi o'r Asesiad ymlaen at Dîm Gweithredu'r Mesur at ddibenion monitro gan ddefnyddio'r blwch postio pwrpasol CRIA@wales.gsi.gov.uk

Os nad yw swyddogion yn sicr ynghylch cwblhau Asesiad neu beidio, dylent bob amser geisio cyngor gan Dîm Gweithredu'r Mesur trwy anfon unrhyw gwestiynau ymlaen i'n blwch postio CRIA@wales.gsi.gov.uk

Efallai y dymunwch groes-gyfeirio gydag Asesiadau Effaith eraill a gyflawnwyd.

NODER. Rhaid cyhoeddi pob Asesiad a wneir yn ôl deddfwriaeth. Bydd pob Asesiad anneddfwriaethol yn cael ei restru ar wefan Llywodraeth Cymru a rhaid iddo fod ar gael ar gais. Caiff Gweinidogion eu hannog, fodd bynnag, i gyhoeddi pob Asesiad a gwblheir.

Chwe Cham at Sylw Dyledus



Cam 1. Beth yw'r darn o waith a'i amcan(ion)?

Efallai yr hoffech gynnwys:

- Disgrifiad byr o'r darn o waith
- Beth yw'r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?
- Pwy yw'r rhai y bwriedir iddynt elwa?
- A yw'n debygol y bydd y darn o waith yn effeithio ar blant?
- A fydd y gwaith yn cael effaith ar grŵp penodol o blant, os felly, wnewch chi ddisgrifio'r grŵp yr effeithir arnynt?

Disgrifiad o'r darn o waith

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhai dulliau rhianta yn arwain at ganlyniadau llwyddiannus ar gyfer plant, ac mae ymchwil wedi dangos bod rhianta cadarnhaol yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer plant yn nhermau cymdeithasol, emosiynol ac academaidd.

(Sroufe, et al 1990; Emler, 2001; Desforges a Bouchaard, 2003; Seaman et al, 2005; Feinstein a Sabates, 2006; O'Connor a Scott 2007; Moullin et al, 2008; Katz a Redmond, 2009; Asmussen a Weizel, 2010 a Nixon, 2012). Gweler y rhestr lawn o gyfeiriadau yn 'Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth'

<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140910-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf>

Mae rhianta cadarnhaol yn digwydd lle y mae rhieni:

- yn gariadus, yn faethlon ac yn barchus;
- yn gefnogol ac yn chwarae rhan lawn;
- yn pennu ffiniau clir a chyson sy'n seiliedig ar ddisgwyliadau realistig yn ôl oedran y plentyn a'r cyfnod yn ei ddatblygiad;
- yn modelu ymddygiad da;
- yn goruchwyllo eu plant yn briodol;
- yn canmol ymddygiad da; ac
- yn delio ag ymddygiad problematig mewn ffordd gyson, heb orfod cosbi'r plentyn yn gorfforol na gweiddi'n afresymol.

Yn yr hydref, bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn lansio ymgyrch i annog rhianta cadarnhaol. Nod cyffredinol yr ymgyrch yw helpu i newid agwedd y cyhoedd o ran

sut y mae plant a phobl ifanc yn cael eu magu a'u disgyblu, gan ei gwneud yn annerbyniol iddynt gael eu cosbi'n gorfforol a hyrwyddo dewisiadau cadarnhaol eraill.

Bydd yr ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch amser iddo', yn hyrwyddo dulliau cadarnhaol o fagu plant drwy ddefnyddio nifer o sianeli cyfryngau gwahanol. Drwy ddefnyddio'r thema 'amser', bydd y neges a roddir i rieni yn gadarnhaol ac yn gefnogol. I ddechrau, y brif gynulleidfa darged fydd rhieni a gofalwyr plant ifanc (0-5), gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod plant o fewn y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o gael eu smacio. (Gweler: Jackson (1999) a enwyd yn Henricson, H. a Grey, A. (2001) "Understanding Discipline" National Family and Parenting Institute; a Bunting, L., Webb, M. a Healy, J. (2008) "The 'Smacking Debate' in Northern Ireland – Messages from Research", Barnardos Cymru, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon a NSPCC Gogledd Iwerddon).

Byddai'r ymgyrch yn cefnogi'r nod cyffredinol drwy:

- defnyddio amrywiaeth o dechnegau a dulliau 'marchnata' i godi ymwybyddiaeth o'r neges ynghylch rhianta cadarnhaol;
- darparu 'adnoddau' (megis taflenni, cynnwys ar y we, clipiau fideo, poster i a phostiadau Facebook) a fydd yn cynnig gwybodaeth, awgrymiadau ymarferol a strategaethau i gefnogi newidiadau o ran agwedd ac ymddygiad;
- cyfeirio rhieni at wasanaethau (megis ymwelwyr iechyd, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg etc); a
- dod ag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol ynghyd a all ddefnyddio eu dylanwad i gefnogi newidiadau o ran agwedd ac ymddygiad.

Ymchwil

Ochr yn ochr â'r darn hwn o waith bydd tair elfen o waith ymchwil:

Datblygu'r ymgyrch: cynhelir grwpiau ffocws i ystyried negeseuon allweddol yr ymgyrch a'r dulliau mwyaf effeithiol o'u hyrwyddo. Mae hyn yn debygol o gynnwys grwpiau ffocws gyda rhieni sydd â phlant o dan saith mlwydd oed.

Agweddau plant a phobl ifanc tuag at gosbi'n gorfforol: bydd gwaith ymchwil ansoddol yn cael ei wneud gyda phlant i ystyried eu hagwedd at ddulliau rhianta, gan gynnwys cosbi'n gorfforol. Mae gwaith blaenorol wedi ymchwilio i agweddau oedolion ar y pwnc hwn, ond ni wnaed gwaith hyd yma gyda phlant a phobl ifanc, sy'n fwy tebygol o gael eu heffeithio drwy gael eu cosbi'n gorfforol. Bydd arbenigwyr yn cael eu comisiynu i wneud yr ymchwil hon oherwydd sensitifrwydd moesegol.

Llinell sylfaen feintiol ar gyfer agweddau: Byddwn yn comisiynu rhywfaint o waith er mwyn mesur agweddau rhieni sydd â phlant yn y grŵp oedran targed, cyn i'r ymgyrch ddechrau. Wedyn, rydym yn bwriadu cynnal yr ymchwil eto ychydig o flynyddoedd ar ôl i'r ymgyrch ddechrau, er mwyn gweld a oes unrhyw wahaniaeth o ran agweddau.

Amserlenni

Oherwydd bod agweddau'n cael eu ffurfio gan amrywiaeth gymhleth o ffactorau, bydd ein dull gweithredu'n golygu ymdrech fawr dros nifer o flynyddoedd. Rhagwelir y gallai'r ymgyrch gael ei chynnal dros gyfnod o dair blynedd. Bydd cam cyntaf yr ymgyrch yn cael ei gynnal o hydref 2015 tan ddiwedd mis Mawrth 2016.

Y rhai a fydd yn elwa a'r effaith ar blant

- Dylai plant elwa ar rianta cadarnhaol drwy gael bywyd cartref hapusach, a bydd eu hymddygiad a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn gwella;
- Dylai rhieni elwa ar fabwysiadu dulliau rhianta cadarnhaol drwy brofi llai o straen a gwella eu lles personol;
- Dylai rhieni a phlant elwa ar berthynas well rhyngddynt.

Cam 2. Dadansoddi'r effaith

- Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol i blant, pobl ifanc neu eu teuluoedd?
- Lle bo effeithiau negyddol; pa fesurau cydbwysu y gall fod eu hangen i liniaru unrhyw effaith negyddol?
- Sut fyddwch chi'n gwybod os yw eich darn o waith yn llwyddiant?
- Ydych chi wedi datblygu fframwaith canlyniadau i fesur effaith?
- Ydych chi wedi ystyried y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor?
- Oes angen ichi gyd-drafod â phlant a phobl ifanc a/neu rhanddeiliaid i geisio eu barn gan ddefnyddio dulliau ymgynghori neu gyfranogi?
- Oes angen ichi baratoi fersiynau addas i blant o gynigion/ymgyngoriadau?

- **Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol i blant, pobl ifanc neu eu teuluoedd?**
Pa fesurau cydbwysu y gall fod eu hangen i liniaru unrhyw effaith negyddol?

Ni ddisgwylir y bydd effeithiau negyddol ar blant nac ar eu teuluoedd. Bydd yr ymgyrch yn gyfrwng i hyrwyddo strategaethau rhianta cadarnhaol a helpu rhieni i ddod o hyd i atebion cadarnhaol er mwyn rheoli ymddygiad heriol eu plant.

Effeithiau cadarnhaol:

Bwriad yr ymgyrch yw newid y diwylliant o ran agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, drwy ei wneud yn annerbyniol. Bydd yr ymgyrch yn hybu gwobrwyo ymddygiad da yn hytrach na chosbi ymddygiad gwael.

Bydd yr ymgyrch yn rhoi opsiynau i rieni a dewisiadau eraill yn lle cosbi plant yn gorfforol, yn ogystal ag annog rhieni i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn well, er mwyn delio â sefyllfaoedd sy'n achosi straen.

Bydd yr ymgyrch yn hyrwyddo rhianta cadarnhaol i gynulleidfa eang. Bydd yn codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o werth rhianta cadarnhaol ac yn helpu i normaleiddio'r broses o geisio cymorth rhianta.

Effaith negyddol bosibl:

Efallai y bydd barn gyffredinol ymhlith rhai rhieni bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrthynt sut i rianta. Fodd bynnag, byddwn yn hyrwyddo'r negeseuon cefnogol a ganlyn:

- Nid yw'r ymgyrch yn ymwneud â dweud wrth rieni sut i fagu eu plant.
- Nid oes yna un dull rhianta sy'n addas i bawb. Mae pob plentyn a rhiant yn unigryw ac nid yw'r ymgyrch yn darparu set o reolau rhianta y mae rhaid eu dilyn. Yn hytrach

mae'n rhoi awgrymiadau a strategaethau fel bod rhieni'n gallu penderfynu beth all weithio i'w plentyn a'u teulu nhw.

- Nid oes y fath beth â rhiant perffaith, ac nid yw'r un ohonon ni'n taro'r nod bob tro. Fodd bynnag, mae seicolegwyr wedi dod i'r casgliad mai rhianta cadarnhaol yw'r ffordd fwyaf tebygol o sicrhau bod plant yn tyfu'n bobl hapus ac yn dysgu'n dda.

Nod yr ymgyrch yw galluogi rhieni i wneud y gorau o'u sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn datblygu perthynas gadarnhaol ac iach gyda'u plant.


• Sut fyddwch chi'n gwybod os yw eich darn o waith yn llwyddiant?

Byddwn yn gwneud hyn ar sawl lefel:

- Bydd y gwaith ymchwil a ddisgrifiwyd yn gynharach yn ystyried agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol ac arferion rhianta ymhlith rhieni yn y grŵp targed cyn yr ymgyrch ac yn nes ymlaen yn ystod yr ymgyrch.
- Byddwn yn mesur yr ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol a'r ymweliadau â'n gwefan benodol.
- Rydym wedi penodi asiantaeth gyfryngau i helpu i gyflwyno'r ymgyrch, a fydd yn monitro pa mor effeithiol yw'r sianeli cyfryngau gwahanol a ddefnyddir i hyrwyddo negeseuon yr ymgyrch.

• Ydych chi wedi ystyried y canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor?

Mae'r Model Rhesymeg isod yn crynhoi'r canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor y bwriedir eu cyflawni.



- **Oes angen ichi gyd-drafod â phlant a phobl ifanc a/neu rhanddeiliaid i geisio eu barn gan ddefnyddio dulliau ymgynghori neu gyfranogi?**

Byddwn yn ceisio barn plant a phobl ifanc am gosbi'n gorfforol ac am arferion rhianta drwy ymchwil a gaiff ei chomisiynu, fel y'i disgrifiwyd uchod.

Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Gan ddibynnu ar effaith eich darn o waith, defnyddiwch eich doethineb i farnu:

- Pa rai o erthyglau'r CCUHP sydd **fwyaf** perthnasol i'r darn o waith? Ystyriwch yr erthyglau y mae eich darn o waith yn effeithio arnynt. <http://uncrcletsgetitright.co.uk/images/PDF/UNCRCRights.pdf>
- Sut ydych chi'n gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar eu hawliau?
- Pa agweddau o fywydau plant y bydd y cynnig yn effeithio arnynt?
- Beth yw'r prif faterion y dylai'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ganolbwyntio arnynt?
- A yw'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP?
- Os nad ydyw, a oes unrhyw ddewisiadau eraill i'r darn presennol o waith wedi cael eu hystyried?

Pa rai o erthyglau'r CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r darn o waith? Ystyriwch yr erthyglau y mae eich darn o waith yn effeithio arnynt

Mae'r Ymgyrch Rhianta Cadarnhaol yn seiliedig ar egwyddorion craidd CCUHP, sy'n canolbwyntio ar barchu'r hyn sydd orau i blant o ran eu lles a'u hawliau, a rhoi cymorth i rieni wrth iddynt gyflawni eu rôl:

- sicrhau yr hyn sydd orau i'r plentyn (erthygl 3);
- cyfarwyddyd rhieni a gallu sy'n datblygu (erthygl 5);
- cyfrifoldebau rhieni (erthygl 18);
- sicrhau hawliau'r plentyn o ran gofal sylfaenol a'r hawl i oroesi, (Erthygl 6), chwarae ac addysg (Erthyglau 28 a 31);
- gwarchod plant rhag camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth ddiraddiol (Erthygl 19);
- a
- yr hawl i ddweud eu barn o ran materion sy'n effeithio arnynt wrth i'w galluoedd nhw ddatblygu (Erthygl 12).

Mae CCUHP yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â rhieni ac sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd eu rôl. Er enghraifft, mae CCUHP yn dweud bod rhieni yn gyfrifol am roi cyfarwyddyd ac arweiniad addas i'w plentyn o ran defnyddio ei hawliau'n briodol (Erthygl 5) ac o ran materion sy'n ymwneud â chrefydd a chydwybod (Erthygl 14). Mae Erthygl 18 yn nodi bod y ddau riant â'r prif gyfrifoldeb dros fagu eu plant, ac yn ei datgan yn glir bod rhaid i lywodraethau ddarparu adnoddau a chymorth i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae hefyd yn dweud bod cyfrifoldeb ar rieni i ddarparu amodau byw digonol i ddiwallu anghenion datblygu eu plentyn, gyda chymorth ariannol oddi wrth y Llywodraeth os bydd angen (Erthygl 27).

Sut ydych chi'n gwella'r ffordd y mae plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar eu hawliau?

Yn y pen draw, bwriad yr ymgyrch yw darparu cyngor a gwybodaeth i rieni yn hytrach na chymorth uniongyrchol i blant. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o blant, cartref y teulu yw'r lleoliad ar gyfer gwireddu llawer o'r hawliau a nodir yn CCUHP. Mae'n amlwg bod gan

rieni rôl hanfodol fel gwarcheidwaid ac eiriolwyr hawliau plant, ac mae cyfrifoldeb ar y wladwriaeth i weithredu fel gwarantwr terfynol. Y gobaith yw y bydd yr ymgyrch hwn yn helpu rhieni i fagu plant mewn modd cadarnhaol a chefnogol sy'n ystyried ac yn adlewyrchu hawliau'r plant. Yn y pen draw, bydd hyn o fudd i blant ac yn eu galluogi i wireddu eu hawliau, a bydd hefyd yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar eu cyfer.

Byddwn yn ceisio cael barn plant a phobl ifanc am gael eu cosbi'n gorfforol ac am arferion rhianta drwy ymchwil a gaiff ei chomisiynu, fel y'i disgrifiwyd uchod.

- **Pa agweddau o fywydau plant y bydd y cynnig yn effeithio arnynt?**

Bydd yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer rhieni yn eu hannog i ddefnyddio strategaethau rhianta cadarnhaol (megis canmol, siarad, chwarae a gwrando) wrth wneud gweithgareddau bob dydd gyda'u plant megis gwisgo, chwarae, siopa, cael bath ac amser bwyd. Bydd yn cynnig awgrymiadau a gwybodaeth benodol i rieni am sut i ddelio ag ymddygiad a sefyllfaoedd cyffredin lle mae rhieni'n fwy tebygol o weiddi neu gosbi plant yn gorfforol. Hefyd, bydd yn rhoi gwybodaeth i rieni ynghylch yr hyn y gellir disgwyl i blentyn ei wneud, er mwyn annog rhieni i fod â disgwyliadau realistig.

- **A yw'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP?**

Ar gyfer y rhan fwyaf o blant, cartref y teulu yw'r lleoliad ar gyfer gwireddu llawer o'r hawliau a nodir yn CCUHP. Nod yr ymgyrch yw sicrhau hynny ag sy'n bosibl o erthyglau'r CCUHP drwy:

- newid y diwylliant o ran agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, gan ei wneud yn annerbyniol, a hyrwyddo strategaethau rhianta cadarnhaol. Helpu mamau a tadau i ddeall pwysigrwydd eu rôl a'r gwahaniaeth cadarnhaol y gallant ei wneud i ddatblygiad eu plentyn, (Erthygl 5, 18)
- cynnig awgrymiadau a gwybodaeth i rieni, sy'n hawdd cael gafael arnynt, am ffyrdd o helpu i reoli straen wrth wneud gweithgareddau teuluol bob dydd, megis amser gwely, amser bath, a siopa am fwyd. Darparu manylion am sefydliadau a allai fod o gymorth i rieni sydd angen mwy o gefnogaeth. (Erthygl 18)
- annog rhieni i chwarae, siarad â'u plant a gwrando arnynt a hybu ymddygiad cadarnhaol drwy fabwysiadu strategaethau rhianta cadarnhaol (Erthyglau 28 a 31)
- annog rhieni i ystyried gallu eu plentyn i wneud rhagor o bethau ar ei ben ei hun – er enghraifft, rhoi peth dewis i'w plentyn bach o ran yr hyn y gallai chwarae ag ef, beth i'w wisgo a beth i'w fwyta. (Erthygl 5)
- annog rhieni i fabwysiadu strategaethau rhianta cadarnhaol a rhoi opsiynau a dewisiadau eraill iddynt yn lle cosbi plant yn gorfforol. Er enghraifft, canmol ymddygiad cadarnhaol yn hytrach na chosbi ymddygiad gwael. Tynnu sylw at yr effaith negyddol sy'n deillio o gosbi plant yn gorfforol a'i fod yn ddull aneffeithiol o ddisgyblu (Erthygl 19)

Bydd yr ymgyrch yn cynnig awgrymiadau a strategaethau sy'n addas i oedran y plentyn, er mwyn hyrwyddo datblygiad plant (Erthygl 3)

Bydd yr ymgyrch hefyd yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi cymorth a gwybodaeth i rieni am rianta cadarnhaol.

Cam 4. Cyngori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidog

Wrth roi cyngor a gwneud argymhellion i'r Gweinidog, ystyriwch:

- Y ffyrdd y mae'r darn o waith yn helpu sicrhau hynny ag sy'n bosibl o ganlyniadau o fewn erthyglau'r CCUHP.
- A oes unrhyw wrthdaro ag erthyglau'r CCUHP o fewn y cynnig wedi cael eu darganfod?
- Yr effaith ehangach: a yw'r cynnig yn effeithio ar unrhyw feysydd polisi eraill?
- O safbwynt unrhyw effeithiau negyddol a achosir gan y cynnig; a all Gweinidogion ddangos eu bod wedi dyrannu cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl?
- Pa ddewisiadau a chyngor y dylid eu rhoi i Weinidogion ar y cynnig?
- O safbwynt eich cyngor i symud ymlaen neu beidio gyda'r darn o waith, a oes unrhyw gyngor pellach y dylech ei roi i'r Gweinidog?
- A yw'n briodol cyngori'r Gweinidog i ailystyried y penderfyniad yn y dyfodol, yn enwedig gan gadw mewn cof yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd a pha adnoddau a all fod ar gael yn y dyfodol?
- Ydych chi wedi rhoi cyngor i Weinidogion ar LF/SF ac wedi cadarnhau paragraff 26?
- A yw'r cyngor wedi'i gefnogi gan esboniad o'r materion allweddol?

Cyngor i'r Gweinidog

Er bod gan rai rhieni fynediad at rywfaint o gymorth rhianta cyffredinol gan bartneriaid mewn llywodraeth lleol, iechyd ac addysg, darperir gwasanaethau drwy ein rhaglenni trechu tlodi yn bennaf – Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf. Yn ei Adroddiad Blynyddol (2013-14), mynegodd Comisiynydd Plant Cymru bryder y dylai pob rhiant a gofalwr gael mynediad at gymorth rhianta cyffredinol.

Gallai rhaglen cymorth rhianta sy'n targedu teuluoedd sy'n byw mewn amddifadedd neu deuluoedd sydd â phroblemau yn ôl asesiad gan weithwyr proffesiynol ddenu stigma, a gallai hyn effeithio ar barodrwydd rhieni i ymgysylltu â'r rhaglen. Hefyd, nid yw targedu cymorth rhianta yn cyfrannu at ddiwylliant lle mae rhianta'n cael ei weld fel sgil y gall pawb ei ddysgu ac elwa ohono.

Mae'n bwysig bod rhieni'n cael negeseuon cyson am elfennau pwysicaf rhianta cadarnhaol a da oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r canllawiau anstatudol, "Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth" yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran sut y dylai cymorth rhianta gael ei ddarparu. Bwriad y canllawiau yw llywio'r penderfyniadau a wneir gan y rheini sy'n darparu ac yn comisiynu gwasanaethau rhianta. Mae'r canllawiau yn cynnwys disgwyliad pendant y bydd egwyddorion rhianta cadarnhaol yn cael eu hyrwyddo'n frwd ac yn gyson.

Gwnaethom gomisiynu gwaith ymchwil y llynedd sydd wedi rhoi dealltwriaeth i ni o'r agweddau yng Nghymru at ddisgyblu plant. Mae'r ymchwil wedi cyfrannu at ein gwybodaeth am strategaethau disgyblu gwahanol y mae rhieni yn eu defnyddio, a'u hanghenion o ran gwybodaeth. Mae hefyd yn tynnu sylw at y cyfle i adeiladu ar y sgiliau

presennol sydd gan rieni, er mwyn atgyfnerthu effeithiolrwydd y strategaethau cadarnhaol y maent yn eu defnyddio eisoes.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai ymgyrch marchnata cymdeithasol ar lefel genedlaethol ddylanwadu ar agweddau tuag at rianta a chosbi plant yn gorfforol. Gallwn ddysgu gwersi o'r ffordd y mae gwahanol ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol wedi cael eu gweithredu yn y DU ac yn rhyngwladol. Roedd llwyddiant yr ymgyrchoedd hyn yn dibynnu ar hyrwyddo negeseuon clir, cyson a chadarnhaol drwy nifer o ddulliau cyfathrebu yn y cyfryngau.

I weithredu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r ymrwymiad maniffesto ar rianta cadarnhaol, cynghorwyd y Gweinidog y dylai ystyried ariannu ymgyrch marchnata cymdeithasol ac ariannu gwaith ymchwil i agweddau plant a rhieni tuag at gosbi plant yn gorfforol ac arferion rhianta.

Ni roddwyd cyngor ar ddeddfwriaeth gan nad oes gan Lywodraeth Cymru fandad i ddeddfu ar y mater hwn, oherwydd nad oedd yn rhan o faniffesto'r Llywodraeth ac nid yw'n ymddangos yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol.

Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cytuno i'r ymgyrch yn SF/LG/1589/15

Cam 5. Cofnodi a chyhoeddi'r canlyniad

Fersiwn derfynol i gael ei chadw ar i-share

Dylid cadw tystiolaeth sy'n cadarnhau:

- Sut y cydymffurfiwyd â'r ddyletswydd (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dadansoddiad a wnaed (**Camau 1-3 uchod**)
- Y dewisiadau a ddatblygwyd ac a archwiliwyd (**Camau 1- 3 uchod**)
- Sut mae'r canfyddiadau / canlyniadau wedi cael eu cyhoeddi? (**Cam 4 uchod**)
- 'Dweud y stori' o sut y gwnaed yr asesiad a'r canlyniadau (**Cam 4 uchod**)

Cam 6. Adolygu'r darn o waith fel bo'r angen

Wrth adolygu'r darn o waith, ystyriwch unrhyw fonitro, gwerthuso neu gasglu data sydd wedi cael ei wneud:

- A yw eich darn o waith wedi cael yr effaith a fwriadwyd fel y nodir yng Ngham 2?
- Ydych chi wedi cyd-drafod â rhanddeiliaid i drafod sut mae'r polisi neu arfer yn gweithio?
- Os nad ydych, oes angen newidiadau.
- Nodwch lle gellir gwneud gwelliannau i leihau unrhyw effaith negyddol.
- Nodwch unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo hawliau plant, gan gadw mewn cof unrhyw adnoddau ychwanegol a all fod ar gael ar hyn o bryd.

Adolygu'r effaith a fwriadwyd

Byddwn yn gwneud hyn ar sawl lefel:

- Bydd y gwaith ymchwil a ddisgrifiwyd yn gynharach yn ystyried agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol ac arferion rhianta ymhlith rhieni yn y grŵp targed cyn yr ymgyrch ac yn nes ymlaen yn ystod yr ymgyrch.

Dyddiad adolygu: ymchwil a wnaed cyn yr ymgyrch – ymchwil ddilynol – dyddiad i'w gadarnhau

- Byddwn yn mesur yr ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol a'r ymweliadau â'n gwefan benodol.

Dyddiad adolygu: Yn fisol i ddechrau ac yn ddeufisol wedi hynny.

- Rydym wedi penodi asiantaeth gyfryngau i helpu i gyflwyno'r ymgyrch, a fydd yn monitro pa mor effeithiol yw'r sianeli cyfryngau gwahanol a ddefnyddir i hyrwyddo negeseuon yr ymgyrch.

Dyddiad Adolygu: Bydd yr asiantaeth gyfryngau yn rhoi diweddariadau'n rheolaidd, a fydd yn cael eu hadolygu

Cyd-drafod â rhanddeiliaid i drafod sut mae'r polisi neu arfer yn gweithio

Bydd cyd-drafod yn digwydd drwy'r gweithgareddau a ganlyn:

- cyflwyniadau i rwydweithiau cenedlaethol, fforymau, cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau;
- erthyglau mewn Cylchlythyrau allanol neu ddogfennau briffio;
- cyfarfodydd gydag unigolion allweddol

Bydd cysylltiadau gwaith a sefydlwyd eisoes â sefydliadau perthnasol allweddol yn cael eu cynnal. Mae'r rhain yn cynnwys presenoldeb rheolaidd yn

- Fforwm Ymwelwyr Iechyd Cymru Gyfan;
- Rhwydwaith y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd;
- Set Ddysgu Teuluoedd yn Gyntaf Gogledd Cymru ar gyfer Rhianta; a
- Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta Cenedlaethol.

Cyllidebau

O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, a oes unrhyw effaith ar gyllidebau?

Mae'n bwysig, lle gwneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys lle gwnaed dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi cael ei asesu a'i brofi fel rhan o'r broses Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Nac oes

Rhowch unrhyw fanylion:

Monitro ac Adolygu


A oes angen inni fonitro / adolygu'r cynnig?

Oes /

Os yn berthnasol: gosodwch y dyddiad adolygu

Mis / Blwyddyn

Mawrth 2016



**Gweler y dudalen
nesaf am Restr Gryno
o erthyglau'r CCUHP**

CONFENSIWN Y CENHEDLOED UNEDIG AR HAWLIAU'R PLENTYN

www.ccuhpwneudpethauniawn.co.uk

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gyfundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Ar 16 Rhagfyr 1991, cytunodd Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn cael yr holl hawliau fel y rhesurwyd nhw yn y confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad i'r confensiwn drwy ei fabwysiadu fel sail ar gyfer gwneud polsi ar gyfer plant yng Nghymru.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrh ag erthyglau 1-42 sy'n cytwyno sut y dylai plant gael eu trin.

Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

Erthygl 2

Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hi, aneffydd, galluoedd, beth bynnag a feddyfa neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 4

Dylai llywodraethau afalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

Erthygl 5

Governments should respect the rights and Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau afalu fod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i enw a gafrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i wybod am a, chyhyd ag y bo modd, i dderbyn golofn gan ei rhieni.

Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, anedligrwydd a chyfwasau teulu.

Erthygl 9

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni ond yw hyn er eu les nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esguluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cyswllt â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

Erthygl 10

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall yr rhieni a'r plant gadw mewn cyswllt neu ddod at ei gilydd fel teulu.

Erthygl 11

Dylai llywodraethau gymryd amau i gadw plant rhag cael eu cynryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddwyed eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddatgwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth onid yw'r wybodaeth yn niweidio iddyn nhw ac i eraill.

Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fyddant ac i arfer eu aeffydd, cyhyd ag nad ydynt yn caed pobl eraill rhag mwyrthau eu hawliau. Dylai rhieni anwain eu plant yn y materion hyn.

Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn caed pobl eraill rhag mwyrthau eu hawliau.

Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu caed rhag ymosodolau ar eu ffordd a fyw, eu herw da, eu teuluoedd a'u cartref.

Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau tarbwl. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent fyw deunyddiau a allai niweidio plant.

Erthygl 18

Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros godd eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w atirdd, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

Erthygl 19

Dylai llywodraethau afalu bod plant yn cael y gallaf priodol, a'u caed rhag trais, camdriniaeth ac esgulusod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hól.

Erthygl 20

Rhoi i bobl sy'n parchu eu aneffydd, eu dwyllant a'u haith edrych ar ôl plant na all eu rhieni afalu amdany'n nhw.

Erthygl 21

Ran fo plant yn cael eu mabwysiadu yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cynhyrso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle

ganed nhw neu'n cael eu cynryd i fyw mewn gwlad arall.

Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel fforduriaid gael yr un hawliau a phlant a anwyd yn y wlad honno.

Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gafal arberrig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac ambynnol.

Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i alai tehyd a answadd da ac i ddw' r glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 25

Dylai sefyllia plant y mae eu hawndurdod feal yn hytrach na'u rhieni yn galu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

Erthygl 26

Dylai'r Llywodraeth roi rmyw o arion ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n dalgion da i ymateb i'w hangenion corfforol a meddyllol. Dylai'r llywodraeth helpu rhieni na allant fforddwl i ddarparu hyn.

Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu hunan-barch dymal plant. Dylai addysg gymrodd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personolaeth a thalant pob plentyn yn gyflawn. Dylai amgyl plant i barchu eu rhieni, a'u dwyllant nhw ac eraill.

Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, boed y rhain yn cael eu rhannu gan fwyafiri y bobl neu beidia.

Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Erthygl 32

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai anharu ar eu hechyd neu eu haddysg.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Erthygl 33

Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau niweidol.

Erthygl 34

Dylai'r llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywfol.

Erthygl 35

Dylai'r Llywodraeth afalu na charff plant eu cipio neu eu gwerthu.

Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai anharu ar eu datblygiad.

Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n tarr'r gyfraith yn greslon. Ni ddylid eu rhoi mewn archar gydag oedolion a dylid eu caed mewn cyswllt â'u rhieni.

Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau oadail i blant dan byrtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arberrig.

Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hesguluso neu eu cam-drin gael help arberrig i adfer eu hunan barch.

Erthygl 40

Dylai plant a gyhuddir a darr'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio deddfyddau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf ddirifol yn unig.

Erthygl 41

Os yw cyfreithiau gwlad arberrig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny oros.

Erthygl 42

Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hybys i bob rhiant a phlentyn.

I gael rhagor o wybodaeth am Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i Gwefan CCUHP Llywodraeth Cymru www.ccuhpwneudpethauniawn.co.uk

Cic - y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i Bobl Ifanc www.ciconline/news

Welsh Government response to the Committee of Advertising Practice consultation on introducing restrictions on the non-broadcast advertising of food and soft drinks to children, 21 July 2016.

The Welsh Government considers that promotion can impact on High Fat, Salt and Sugar (HFSS) food preference, purchase and consumption by children.

The Welsh Government considers current UK broadcast regulations are not strong enough to reduce children's exposure to unhealthy food advertising. We support the banning of advertising of such foods before the 9pm watershed. We will continue to pursue this.

The Welsh Government welcomes the Committee of Advertising Practice's intention to introduce restrictions on the non-broadcast advertising of food and soft drinks to children. It is recognised that there is a shift in children's screen time away from television. Digital marketing strategies are rapidly growing and are a potentially influential area, given the highly immersive and interactive nature of these approaches.

We recognise there is a paucity of evidence regarding the behavioural and health impacts of new digital marketing strategies, which differ in approach to most traditional marketing strategies. However, we are aware that research on averaging found it significantly influenced the intake of, or preference for, high sugar foods in school age children.

A review, published by Public Health England in October 2015, examined the most recent research evidence on the health and behavioural impacts of marketing strategies that target high sugar food and non-alcoholic drink. It considered that the evidence suggests:

- marketing strategies (including promotion) are likely to impact on purchases and consumption, with the evidence predominantly focused on children
- promotion activities such as averaging and sponsorship can influence purchase and intake of unhealthy or high sugar products

Findings from this review support evidence from previous systematic reviews to suggest that marketing is effective in influencing the purchase and consumption of unhealthy or high sugar foods. And most of the evidence focuses on children who are considered more vulnerable to the impact of marketing.

Although we accept that evidence could be stronger, we consider that the stakes are high enough to justify strong regulation across all forms of promotion of High Fat, Salt and Sugar foods to children.

Over a quarter of reception age children in Wales are overweight or obese.

Children and young people in Wales have sugar intakes around three times over the recommended maximum. From the National Diet and Nutrition Survey (December 2015), the main sources of added sugar (non-milk extrinsic sugars, NMES) was soft drinks contributing 29% to NMES intake for children aged 11 to 18 years and 13-14% for children aged 10 years and under 'Cereals and cereal products' contributing 24-29% and 'sugar, preserves and confectionery' contributing 20-23% to NMES intake in children.

In addition to the immediate health consequences of obesity and an unhealthy diet, early-life behaviours may track into adulthood and influence weight later in life, with estimates that around 70% of obese children or adolescents become obese adults.

It is therefore crucial that everyone with influence over these alarming statistics acts now. We therefore call on CAP to introduce the legislation to eliminate advertising of HFSS foods and drinks in all forms of non-broadcast advertising that may be viewed by our children and young people.

CYPE(5)-09-16 – Papur | Paper 3 – i'w nodi | to note

Ymateb gan : NSPCC Cymru
Response from : NSPCC Wales

10th October 2016

Dear Lynne Neagle AM

As you debate the policy areas on which you focus on the coming years can I urge you to listen to children's voices?

To assist you, Childline's 2015/6 annual report was recently launched. It can be found here: <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/annual-reports/childline-annual-review-2015-16.pdf>

Mental health and wellbeing issues were the main reason why children contact Childline.

These are the key points from our Childline 2015/6 annual review:

- Demand for our Childline service has remained high and we've provided more than 300,000 counselling sessions this year (up 5 per cent on last year).
- **Mental health and wellbeing issues continue to be the main reason why children and young people contact us, with one in three counselling sessions about this topic.**
- Most worryingly, **we're seeing increases in the most serious mental health problems.** This year we provided over 19,000 counselling sessions with young people who were thinking about or planning suicide – the highest levels we've ever seen.
- At the same time, we've seen an **87 per cent increase in the number of counselling sessions where children and young people talked to us about struggling to access appropriate professional support** locally especially for mental health problems, some of which were linked to their experiences of abuse. This follows an increase of 124 per cent in the previous year.
- Young people are also increasingly turning to Childline for support about the issues they are encountering online. We provided over 11,000 counselling sessions relating to online issues including sexual abuse, bullying and safety (up by 9 per cent on last year). We've seen increases this year in counselling sessions around online grooming, sharing sexual images online (sexting) and viewing online sexually explicit images (pornography and child abuse images).

We at the NSPCC are concerned that abused children do not always receive the professional support they need. We know that the impact of abuse can include mental health problems such as anxiety, depression, substance misuse, eating disorders, self-harm, anger and aggression, sexual symptoms and age inappropriate sexual behaviour. Research by Public Health Wales shows that 10% of adults in Wales suffered sexual abuse and 17% physical abuse and that adverse childhood experiences lead to health-harming behaviours and low mental well-being in adult life. Receiving the right support at the right time can mean the

difference between overcoming their trauma, or a life shaped by the horror of their experiences.

Article 19 of the United Nations Convention on the Rights of the Child states that children should be protected from all forms of violence and Article 39 states that the Government 'shall take all appropriate measures to promote physical and psychological recovery....of a child victim of any form abuse'. Children need access to support and therapeutic services to enable them to overcome the trauma of their experiences and we are concerned that the provision of such services for children is at best patchy.

In 2015, there was a 124% increase in Childline counselling sessions relating to mental health and wellbeing that mentioned problems accessing services across the UK. In 2016 there was a further increase of 87%. We know that there is a high threshold for children and young people's access to CAMHS, so it is important to ensure that other therapeutic services such as counselling, CBT and attachment based therapies are available.

Because of our concerns about access to therapy for abused children we suggested to the Health and Social Care Committee and the Equalities, Local Government and Communities Committee that they undertake a short inquiry into therapeutic services for children who have experienced abuse.

We urge your Committee to respond to the very recent Childline figures and monitor the delivery of services for children's mental health, both access to CAMHS and availability/ access to other therapeutic services for children and young people in Wales. We also think it's essential to monitor the impact that the additional CAMHS funding has had, in particular for children who've been traumatised.

Des Mannion
National Head of Service for NSPCC Wales/Cymru

Item 3.3

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

13 Hydref 2016

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Ymchwiliad i'r Grant Gwella Addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gwneud rhywfaint o waith mewn perthynas â'r Grant Gwella Addysg. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y defnydd o'r Grant i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig.

I gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

Penderfyniad polisi i gyfuno grantiau i'r Grant Gwella Addysg

1. Manylion am unrhyw asesiad o effaith, yn enwedig mewn perthynas â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig a wneir gan Lywodraeth Cymru cyn y penderfyniad i gyfuno'r grantiau i'r Grant Gwella Addysg.
2. Manylion am unrhyw opsiynau eraill a ystyriwyd cyn y penderfyniad i gyfuno'r grantiau, gan gynnwys p'un a allai unrhyw un o'r grantiau fod wedi parhau fel grantiau ar wahân ai peidio.



3. Yn ystod rownd cyllideb ddrafft 2015–16, dywedodd y Gweinidog y dylai'r system newydd arwain at ddeilliannau gwell i ddysgwyr. Dylech ddarparu unrhyw dystiolaeth gynnar o hyn, yn arbennig mewn perthynas â phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig.

Y broses o ddyrannu arian a mesur gwerth am arian

4. Eglurhad o sut y caiff y Grant ei ddyrannu, gan gynnwys rôl y consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion unigol o ran dirprwyo a thargeddu cyllid i wella deilliannau addysgol ar gyfer plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a phlant o leiafrifoedd ethnig.

